

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ('y Comisiwn') wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa gyfansoddiadol bresennol Cymru yn anghynaliadwy. Gan hynny, mae wedi ymrwymo i wyntyllu tri phrif opsiwn ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru: atgyfnerthu datganoli, strwythurau ffederal ac annibyniaeth. Gan nodi hanfod y gwendidau yn sgil y cynigion presennol ynghylch 'atgyfnerthu' datganoli a chan weld ffederaliaeth fel opsiwn anymarferol, mae Grŵp Senedd Plaid Cymru o'r farn mai annibyniaeth yw'r opsiwn gorau ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn y tymor hir.
2. Mae'r Comisiwn wedi gofyn nifer o gwestiynau pwysig am annibyniaeth. Yn fras, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chapasiti cyllidol a sefydlogrwydd ariannol gwladwriaeth Gymreig annibynnol; pa fath o arian cyfred y byddai Cymru annibynnol yn ei ddefnyddio; effaith annibyniaeth ar ffiniau Cymru; a'r broses a'r amserlen ar gyfer derbyn Cymru annibynnol i'r Undeb Ewropeaidd. Mae ymateb i'r cwestiynau hyn yn rhan allweddol o ddangos pa mor ymarferol yw annibyniaeth i Gymru, ac mae Grŵp Senedd Plaid Cymru wedi comisiynu ymchwil annibynnol i'n cefnogi i wneud hynny.
3. Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Blaid Cymru ac a gynhaliwyd gan yr Athro John Doyle, byddai diffyg cyllidol Cymru o ddod yn wlad annibynnol yn £2.6 biliwn, sy'n llawer llai nag amcangyfrif y Swyddfa Ystadegau Gwladol o £13 biliwn, a chyda Chynnyrch Domestig Gros o 3%, mae hyn yn saff o fewn y normau Ewropeaidd. Yn seiliedig ar y llinell sylfaen hon a chan dybio y byddai proses i Gymru ymuno â'r UE yn y pen draw, mae papur pellach gan Doyle yn dangos y byddai Cymru annibynnol yn ariannol hyfyw yn y tymor canolig. Gan ddefnyddio profiad gwledydd bach eraill o ymuno â'r UE, mae gwaith modelu Doyle yn creu 9 senario, gyda 8 ohonynt yn dangos Cymru annibynnol yn cyflawni 'cyllideb gytbwys' erbyn blwyddyn 15. Byddai hyn, yn hollbwysig, yn creu'r gofod cyllidol sydd ei angen i ddatblygu a gweithredu polisiâu cymdeithasol newydd. Gan dynnu ar ymchwil Doyle, mae Melin Drafod hefyd wedi dadlau y byddai Cymru annibynnol yn ariannol gynaliadwy.
4. Mae Doyle hefyd yn dadlau y byddai'r costau 'sefydlu' ar gyfer gwladwriaeth Gymreig annibynnol yn gymharol fach yng nghyd-destun gwariant cyhoeddus ehangach. Y rheswm am hyn yn ei hanfod yw bod Cymru eisoes yn talu ei siâr ar gyfer nifer o'r sefydliadau allweddol – gan gynnwys gwasanaethau diplomyddol, Cyllid a Thollau a system fudd-daliadau – y byddai eu hangen arni ar ôl dod yn wlad annibynnol. Gellid gwneud arbedion drwy deilwra gwasanaethau a sefydliadau'n well i ddiwallu anghenion penodol Cymru. At hynny, byddai derbyniadau trethi gan weithwyr sy'n cael eu hadleoli i wasanaeth sifil annibynnol Cymreig (yn hytrach na gwasanaeth sifil y DU gyfan) yn gwrthbwysu costau sefydlu gan hyd at tua £350 miliwn y flwyddyn.
5. Byddai angen i Gymru annibynnol ddewis rhwng cadw'r bunt, creu ei math ei hun o arian cyfred neu ymuno â'r Ewro. Mae'r ail o'r opsiynau hyn yn angenrheidiol hefyd pe dilynid y trydydd opsiwn. Er y gallai cadw'r bunt ar ôl annibyniaeth helpu i greu canfyddiad o sefydlogrwydd a pharhad i ddechrau, mae rhai wedi awgrymu y byddai hyn yn cyfyngu ar y gallu i lunio a gweithredu polisiâu macro-economaidd. Gan amlygu gofynion penodol diffyg 'dwbl' Cymru (h.y. cyllidol a chyfrif cyfredol), mae Dr Thibault Laurentjoye yn dweud bod angen cyflwyno math o arian cyfred Cymreig newydd yn raddol (sy'n cyd-fynd, yn y lle cyntaf, â'r bunt) cyn dod yn wlad annibynnol, fel rhan o

gyfnod gweithredu ehangach a fyddai'n dilyn unrhyw refferendwm llwyddiannus ar annibyniaeth. Mae Laurentjoye yn cynnig y byddai Banc Canolog Cymreig newydd yn creu sefydlogrwydd ariannol trwy weithredu fel benthyciwr a 'gwneuthurwr marchnad' os metha popeth arall, yn ogystal ag ystod o sefydliadau a mesurau eraill i hybu cynaliadwyedd ariannol. Yn y tymor hwy, gallai Cymru gymryd y camau sydd eu hangen i ymuno â'r Ewro, yn unol â'r telerau i ymuno â'r UE, ond nid oes unrhyw fodd o orfodi hyn yn ymarferol.

6. Fel y dywed yr Athro Katy Hayward a'r Athro Nicola McEwen, mae Cymru eisoes yn rheoli ei ffiniau, gan gynnwys â Lloegr, ac mae gwahaniaethau polisi rhwng un ochr o'r ffin a'r llall eisoes yn cael ei dderbyn fe ffaith sefydledig gan y bobl sy'n byw ar y ffin a busnesau sy'n masnachu ar draws y ffin. O'r herwydd, byddai datblygu trefn newydd ar gyfer y ffiniau fel rhan o ddod yn wlad annibynnol yn adeiladu ar arferion presennol, yn hytrach na dechrau o'r newydd. Gan dybio (yn rhesymol), cytundeb sylweddol ac ymgysylltiad adeiladol parhaus rhwng Cymru annibynnol a gweddill y DU; cyfranogiad parhaus Cymru yn yr Ardal Deithio Gyffredin; a chyfnod gweithredu digonol, ni fyddem yn rhagweld unrhyw newid sylweddol i'r profiad o groesi'r ffin ar y diwrnod cyntaf o annibyniaeth.
7. Byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol i ffiniau Cymru annibynnol yn dibynnu ar benderfyniadau polisi a wneir yn y dyfodol ynghylch pa mor agos yw perthynas Cymru â gweddill y DU o'i gymharu â'i pherthynas â'r UE. Ar hyn o bryd, byddai cyfaddawdau ynghlwm wrth y penderfyniadau hyn, a byddai angen eu hystyried a'u trafod, er y gallem ddisgwyl yn rhesymol i'r cyfaddawdau hyn newid neu leihau wrth i'r berthynas rhwng yr UE a'r DU barhau i esblygu ar ôl Brexit. Mae Hayward a McEwen hefyd yn awgrymu y gallai technoleg chwarae rhyw fath o rôl wrth lyfnhau materion trawsffiniol a/neu y gallai Fframwaith Windsor ddarparu model newydd wrth ddod o hyd i hawddfreintiau neu fesurau lliniaru. Fodd bynnag, maen nhw'n pwysleisio bod y ddau bosibilrwydd hyn yn gyfyngedig. Yr hyn y mae Hayward a McEwen yn ei bwysleisio yn anad dim yw pwysigrwydd amser, paratoi a deialog adeiladol barhaus wrth ddatblygu a gweithredu unrhyw gyfundrefn newydd ar gyfer y ffiniau, fel rhan o gyfnod ehangach o drafod a gweithredu.
8. Annibyniaeth i Gymru o fewn Ewrop yw prif uchelgais gwleidyddol Plaid Cymru, a dyma ein nod hirdymor o hyd. Byddai sicrhau bod Cymru yn adennill statws aelod llawn o'r UE yn un o brif fanteision annibyniaeth, er y byddai hyn, fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn golygu cyfaddawdau penodol o ran perthynas Cymru â gweddill y DU yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd y cyfaddawdau hyn yn lleihau, o ystyried gweithredoedd diweddar llywodraeth bresennol y DU a'r awgrymiadau gan yr wrthblaid Lafur ynghylch yr hyn y byddai'n ei ffafrio ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Gan gynnwys fel rhan o daith Cymru at ddod yn wlad annibynnol, byddwn yn parhau i ddadlau'r achos dros weld y DU gyfan yn ailymuno â marchnad sengl ac undeb dollau'r UE, gan gredu bod hyn er budd pawb yn y DU ac Iwerddon. Dim ond ar ôl dod yn wlad annibynnol yn ffurfiol y gallai trafodaethau i ymuno â'r UE ddechrau, ond rydym yn nodi ystod o bontydd posibl i ddod yn aelod llawn o'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd o dreiglo telerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu presennol rhwng yr UE a'r DU. Gallai'r broses o ymuno â'r UE gymryd cyn lleied â 2 flynedd, ac 8 mlynedd fyddai'n ei gymryd yn realistig yn y sefyllfa waethaf.
9. Y neges sy'n cael ei chyfleu'n gryf ac yn gyson o'r ymchwil a'r dystiolaeth a gyflwynir yma yw pwysigrwydd cynllunio, rheoli prosesau newid cyfansoddiadol yn ofalus, a thrin y prosesau hyn a'r dadleuon yn eu cylch gyda'r gofal a'r diwydrwydd y maent yn ei haeddu. Nid yw'r atebion a

gyflwynir yma yn rhai terfynol, ac mewn sawl ffordd maent yn codi cwestiynau pellach sy'n galw am ymchwil a thrafodaeth bellach. Byddem yn ategu cynnig y Comisiwn Annibyniaeth i greu Comisiwn Cenedlaethol sefydlog (neu debyg) i barhau â'r gwaith pwysig o ystyried cwestiynau hollbwysig am ddyfodol gwleidyddol, economaidd a chyfansoddiadol Cymru.

Cyflwyniad

Nid yw sefyllfa gyfansoddiadol bresennol Cymru bellach yn gynaliadwy (yn wir, os bu erioed). Mae hwn yn un o gasgliadau allweddol gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ('y Comisiwn'), ac yn enwedig ei adroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad interim hwnnw yn amlygu - yng nghyd-destun cyni, Brexit, pandemig Covid a'r canlyniadau sydd wedi deillio o'r pethau hyn - bod trefniadau llywodraethu a'r setliad datganoli yng Nghymru wedi wynebu pwysau newydd o sawl cyfeiriad, pwysau sydd wedi'i adnewyddu a phwysau parhaus. Mae'r Comisiwn yn rhestru deg ffactor sydd wedi arwain at bwysau (gweler Ffigur 1) sy'n deillio o wendidau annatod yn setliad datganoli Cymru, ynghyd â'r penderfyniadau a gymerwyd a'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU, yn enwedig ers refferendwm Brexit yn 2016. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn - boed yn ffactorau strwythurol a swyddogaethol, yn gynhenid ac yn ddibynnol - yn creu math o gamweithrediad cyfansoddiadol sy'n nodwedd o'r system yn hytrach nag yn nam ar y system. Fel y nodwyd gan y Comisiwn yn ei adroddiad interim (2022: 73-74), "mae erydiad datganoli...yn awgrymu i ni nad yw'r *status quo* yn sail sefydlog ar gyfer y dyfodol mwyach". Yn sgil y pwysau sy'n wynebu datganoli yng Nghymru, mae newid cyfansoddiadol yn debygol (os nad yn anochel) ac yn ddymunol, ac mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod tri phrif opsiwn ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru: atgyfnerthu datganoli, strwythurau ffederal ac annibyniaeth.

Ffigur 1: Datganoli Dan Bwysau

- Ansefydlogrwydd y setliad datganoli:** mae datblygiadau diweddar yn dangos i ba raddau y gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig wneud penderfyniadau anochorog heb gynnwys y sefydliadau datganoledig, ac nad oes ganddynt ffordd ystyrlon o wrthwynebu hynny. Mae hyn yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y ffordd mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymdrin â Chymru ac yn mynd yn groes i gysylltiadau adeiladol rhwng llywodraethau.

(o safbwynt llawer o sylwebwyr) er budd yr Undeb, yn enwedig ar ôl Brexit.
- Natur fregus cysylltiadau rhynglywodraethol:** Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n penderfynu ar y peirianwaith ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, ac mae'r ffaith ei bod wedi ymgysylltu llai dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyd-daro â'i pharodrwydd i ddiystyru confensiynau. Mae hyn yn golygu y gellir gwneud penderfyniadau anochorog nad ydynt yn cyfrannu at y canlyniadau gorau i ddinasyddion.
- Diffyg arweinyddiaeth ar yr Undeb:** dros y blynyddoedd diwethaf nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu'r arweinyddiaeth gyson sydd ei hangen er mwyn cydweithio'n effeithiol â'r llywodraethau datganoledig. Mae'n ymddangos ei bod yn tybio bod angen ffrwygo datganoli, a'i wrthdroi hyd yn oed
- Cyfyngiadau ar bolisi a chyflawni ar ffiniau'r setliad:** ar wahân i bwerau amrywio trethi, mae cwmpas y pwerau datganoledig wedi aros yr un fath yn fwy neu lai â phwerau gweithredol y Swyddfa Gymreig cyn datganoli. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â chynigion i ymestyn datganoli, er gwaethaf argymhellion sy'n seiliedig ar brofiad ymarferol o ddarparu gwasanaethau ar y rheng flaen.
- Problemau gyda'r system sy'n ariannu datganoli:** mae'r amcan o sicrhau proses dryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi cael ei dilyn'n annibynnol ar gyfer djarannu adnoddau rhwng cenhedloedd a rhanbarthau'r DU yn dal yn hanfodol, a dylai fod yn sail i unrhyw gynigion ar gyfer newid cyfansoddiadol.
- Cyfyngiadau ar reoli'r gyllideb:** mae rheolaethau manwl y Trysorlys yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb i'r hirdymor. Mae'n anodd gweld yr angen am y rhain, wrth ystyried ei hatebolrwydd i Senedd Cymru am ei stwardiaeth o wariant cyhoeddus.
- Pwysau ar ddemocratiaeth gynrychiadol:** teimlai'r ymatebwyr fod y system gyfredol yn dibynnu gormod ar fecanweithiau anuniongyrchol er mwyn i'r cyhoedd gael dylanwad ar bolisiau ee drwy bleidleisio dros bleidiau ar sail eu manifestos a dal y llywodraeth i gyfrif drwy'r bocs pleidleisio.
- Diffyg gwybodaeth ac atebolrwydd:** nid oedd gan y rheini a ymatebodd i'n hymgyngoriad hyder yn y mecanweithiau i ddwyn y llywodraeth i gyfrif, ac nid oedd rhai ohonynt yn gwybod am y mecanweithiau sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Penbleth economaidd:** ansicr iawn yw'r rhagolwg i economi Cymru a hithau'n rhan o economi'r DU sy'n un o'r rhai mwyaf anghyfartal yn Ewrop. Ond nid yw model cyfansoddiadol gwahanol yn sicrhau y bydd gwell cynnydd.
- Penbleth gyfansoddiadol:** mae goruchafiaeth Senedd San Steffan yn golygu ei bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ddechrau unrhyw newid i'r trefniadau cyfredol a'i bod yn rhaid i San Steffan gytuno ar hynny. Pa bynnag achos a wneir dros newid, gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei anwybyddu.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022: 7)

Rydym yn mynd ati i drafod yr opsiynau hyn ar gyfer newid cyfansoddiadol a'u rhinweddau isod. Yn gyntaf, mae'n werth nodi, yn y misoedd ers cyhoeddi adroddiad interim y Comisiwn, fod pwysau ar ddatganoli yng Nghymru – a threfniadau cyfansoddiadol y DU yn ehangach – wedi parhau i

ddwysáu. Mae ansicrwydd economaidd parhaus wedi bod yn nodweddiadol o 2023, hyd yma. Mae 'Trussonomics' yn parhau i daflu ei gysgod sylweddol ar economi wleidyddol Prydain, gyda goblygiadau hirdymor ar gyfer buddsoddiad a thwf (Boscia 2023). Mae pwysau chwyddiant, ac ymdrechion i reoli'r pwysau hyn drwy gyfraddau llog a chyfyngiadau ar gyflogau (gweler Meadway 2023), wedi bo yn ffactorau parhaus, gyda goblygiadau i gostau byw a chysylltiadau diwydiannol. Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan (2023) yn datgelu bod effaith yr argyfwng costau byw wedi bod yn arbennig o ddifrifol yng Nghymru; na fu unrhyw welliant sylweddol yn safonau byw pobl ers mis Ionawr 2023; a bod pryderon mawr ynghylch sut y bydd pobl yn ymdopi wrth inni nesáu at y gaeaf. Mae chwyddiant wedi gwaethygu'r problemau gyda'r system sy'n bodoli ar gyfer ariannu datganoli a'r natur gyfyngol o reoli cyllideb, gyda Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn wynebu diffyg o £900 miliwn yn ystod y flwyddyn yn ei chyllideb, ynghyd â'r sefyllfa ariannol anoddaf ers dechreuad datganoli (Deans 2023b). Mae'r wasgfa bresennol ar gyllid a safonau byw Cymru yn adlewyrchu tueddiadau tymor hwy, ac yn y pen draw mae'n deillio o (yn hytrach na chael ei leddfu gan) ei haelodaeth o'r Deyrnas Unedig (Ifan a Siôn 2022; Doyle 2023).

Mae cryn bwysau gwleidyddol wedi cael ei ychwanegu at y pwysau ariannol ac economaidd hyn, ac mae hyn wedi ansefydlogi'r setliad datganoli ymhellach. Mewn ymosodiad rhodresgar ar ddatganoli (neu "full-frontal attack" yng ngeiriau Sturgeon, a ddyfynnwyd yn Tierney 2023) ym mis Ionawr 2023, defnyddiodd Llywodraeth y DU Adran 35 o Ddeddf yr Alban 1998 i atal Bil Senedd yr Alban rhag dod yn gyfraith am y tro cyntaf. Gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol yr Alban orchymyn o dan Adran 35 i atal y Bil Diwygio Cydnabod Rhyw (Yr Alban), a basiwyd gan Senedd yr Alban ar 22 Rhagfyr 2022. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, rydyn ni'n dal i aros am benderfyniad barnwrol ar gyfreithlondeb penderfyniad Llywodraeth y DU i weithredu Adran 35 yn yr achos hwn. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod cymryd y cam hwnnw wedi tansilio ymhellach gysylltiadau rhynglywodraethol y DU sydd eisoes yn fregus, ac mae Llywodraeth yr Alban (2023a: 11) wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi cadw at y prosesau cytunedig y mae cyd-ddealltwriaeth yn eu cylch o ran arfer ei phwerau o dan Adran 35.

Cafodd yr un cyhuddiad ynghylch methiant i ddilyn prosesau cytunedig mewn cysylltiadau rhynglywodraethol ei wneud yn achos ymagwedd Llywodraeth y DU at Gynllun Dychwelyd Ernes yr Alban, a ni wnaeth Llywodraeth yr Alban yn y pen draw ond llwyddo i sicrhau eithriad rhannol a dros dro yn unig o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (Ibid.: 5-6). Yn achos Deddf Marchnad Fewnol y DU, roedd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn defnyddio, i bob pwrpas, y Ddeddf honno (Deddf a basiwyd heb gydsyniad Senedd yr Alban na Senedd Cymru) i atal deddfwriaeth rhag cael ei gweithredu mewn meysydd cymhwysedd sy'n ddiawmsys wedi'u datganoli, gan arwain at oblygiadau i ddatganoli yng Nghymru, yn ogystal â'r Alban (Ymchwil y Senedd 2023). Roedd enghreifftiau o Gonfensiwn Sewel yn prysur ddod yn anaddas, neu 'withering on the vine' yng ngeiriau'r Prif Weinidog Mark Drakeford (a ddyfynnwyd yn Llywodraeth yr Alban 2023a: 10), hefyd wedi parhau yn 2023, gyda Senedd San Steffan yn mynd yn groes i'r Confensiwn ar gyfer y biliau a oedd yn ymwneud ag Ymfudo Anghyfreithlon, Streiciau (Isafswm Lefelau Gwasanaeth), Ffyniant Bro ac Adfywio a Bil Gogledd Iwerddon (Gwaddol a Chymodi),¹ ymhlith eraill. Ar yr un pryd, mae San Steffan wedi deddfu i roi pwerau newydd i Gynulliad

¹ Yn achos Bil Gogledd Iwerddon (Etifeddiaeth a Chymodi), nid oedd yn ofynnol i Senedd y DU ofyn am gydsyniad Senedd Cymru, gan fod cyfiawnder yn parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl yng Nghymru. Pleidleisiodd Senedd yr Alban i beidio cydsynio i'r Bil ym mis Mehefin 2023 (McClements 2023). Mae'r Bil hefyd yn cael ei wrthwynebu

Gogledd Iwerddon (a elwid yn 'Stormont break') i rwystro'r cyfreithiau newydd yr UE rhag cael eu defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, gan waethygu anghysondebau ar ôl Brexit rhwng y gwahanol setliadau datganoledig (a'r pwerau a arferir gan lywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig) yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (gweler Saville Roberts 2023)². Yn olaf, drwy ddyrannu cyllid drwy ei Chronfeydd Ffyniant Bro a'i Chronfeydd Ffyniant Cyffredin, mae Llywodraeth y DU wedi chwarae rhan uniongyrchol mewn penderfyniadau datganoledig a llunio polisiau, mewn ffordd sy'n osgoi craffu datganoledig ac sydd *hefyd* yn methu ag efelychu cwmpas na maint cronfeydd blaenorol yr UE (Llywodraeth Cymru 2023b)³.

Mae'r hyn a grybwyllir uchod oll yn rhoi tystiolaeth bellach o hanfod diffygion a chyfyngiadau'r setliad datganoli presennol. Adlewyrchir hyn hefyd yn agweddau'r cyhoedd tuag at y setliad hwn yng Nghymru a thu hwnt. Fel y dadansoddwyd mewn adroddiad diweddar a luniwyd gan Richard Wyn Jones ac Ailsa Henderson (2023) ac a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR), mae data o arolwg Cyflwr yr Undeb yn datgelu lefel uchel o amryfusedd ym mhob rhan o'r DU ynghylch undeb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn er gwaethaf, neu hyd yn oed oherwydd, yr agenda o 'undebaeth ymwithiol' a ddilynwyd gan lywodraethau Ceidwadol diweddar. Yng Nghymru, mae polau piniwn gan Redfield a Wilton (2023) wedi dangos cynnydd sylweddol yn y gefnogaeth i annibyniaeth i Gymru yn 2023, gyda 38% o blaid - pan na chyfrir atebion 'ddim yn gwybod' - ym mis Awst (YesCymru 2023; Hayward 2023b). Roedd 41% o'r bobl 18-24 oed a mwyafrif o'r rhai 25-34 oed (51%) yn cefnogi annibyniaeth (Redfield a Wilton 2023). Gyda'r cefndir hwn, mae'r galw am newid a disgwyliadau am newid wedi parhau i gynyddu. Mae rhai o'r galwadau hyn wedi bod yn drawsbleidiol, gan gynnwys galwadau i ymestyn yr ystod o bwerau datganoledig i gwmpasu meysydd fel cyfiawnder ac Ystâd y Goron, ynghyd a galwadau i'r symiau canlyniadol sy'n ddyledus i Gymru yn sgil HS2 gael eu talu. Mae'r Senedd, drwy bleidlais fwyafrifol, wedi cefnogi datganoli Ystâd y Goron. Ac yn achos HS2, mae consensws cwbl drawsbleidiol yng Nghymru (Plaid Cymru 2023a). Efallai fod sail yma ar gyfer adeiladu 'opsiwn ymarferol lleiaf' ar gyfer diwygio cyfansoddiadol, a hynny er gwaethaf y problemau o ran sicrhau a diogelu'r opsiwn hwn yn erbyn San Steffan rhag ymyrryd ac 'egwyddor' sylfaenol sofraniaeth Seneddol, fel y pwysleisiwyd gan y Comisiwn, ac fel y trafodir ymhellach isod.

Mae ffurfiau mwy addawol ar newid cyfansoddiadol wedi'u cynnig gan Gomisiwn Plaid Lafur y DU ar Ddyfodol y DU (2022), dan arweiniad y cyn-Brif Weinidog, Gordon Brown ('Comisiwn Brown'). Mae adroddiad Comisiwn Brown yn gwneud saith set o argymhellion sy'n ymwneud â rhoi egwyddorion cyfansoddiadol ar sail gyfreithiol; datganoli cynyddol yn Lloegr; peth datganoli pellach ac amddiffyniadau cyfansoddiadol ar gyfer pwerau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon; gwella cysylltiadau rhynglywodraethol⁴; gwella safonau a moeseg mewn llywodraeth;

gan bob un o brif bleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon, llywodraeth Iwerddon a nifer o sefydliadau cymunedol a hawliau dynol.

² Caiff hyn ei adlewyrchu yn lefelau amrywiol cyfranogiad y gwahanol lywodraethau datganoledig yn nhrefniadau llywodraethu'r UE a'r DU ar ôl Brexit (gweler Ymchwil y Senedd 2021, 2022).

³ Mae arweinydd y Blaid Lafur, Keir Starmer, wedi awgrymu y byddai llywodraeth y DU wedi ei harwain gan y Blaid Lafur yn dychwelyd pwerau dros y cronfeydd hyn i Lywodraeth Cymru (Deans 2023a).

⁴ Mae argymhellion adroddiad Comisiwn Brown ar gysylltiadau rhynglywodraethol yn ailadrodd i raddau helaeth (ac felly'n dangos anwybodaeth annisgwyl) yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr Adolygiad blaenorol o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau yn yr arweinyddiaeth ar frig llywodraeth y DU, mae diwygiadau i gysylltiadau rhynglywodraethol wedi ymddangos i fod yn frith ac yn dameidiog, ac mae ei effaith wedi bod yn annelwig (Anderson a Schnabel 2023).

diwygio Tŷ'r Arglwyddi; a gweithredu diwygiadau sydd yn yr arfaeth (Institute for Government 2022a, 2022b). Er ei fod, yn ddigon defnyddiol, yn nodi natur symbiotig y berthynas rhwng canlyniadau economaidd a ffurfiannau cyfansoddiadol (gweler Richards a Diamond 2023), yn y dadansoddiad terfynol, mae adroddiad Comisiwn Brown yn ymdrin yn bennaf ag a) prosesau sy'n gorgyffwrdd ar gyfer diwygio cyfansoddiadol ac adnewyddiad economaidd yn Lloegr, a b) wynebu her cenedlaetholdeb Albanaidd a rhwystro cefnogaeth i annibyniaeth i'r Alban. Yn wir, ac fel y mae eraill wedi ei nodi (gweler, e.e., Morgan Jones 2022), nid oedd gan Gomisiwn Brown lawer i'w ddweud am Gymru, y tu hwnt i'r awgrym y dylid cael peth datganoli pellach o wasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid (a fyddai hwyrach yn gwaethygu, yn hytrach na gwella, pa mor ddarniog yw datganoli ym maes cyfiawnder a phlisma (gweler Jones a Wyn Jones 2022)). Mae gweledigaeth gyfyngedig yr adroddiad ar gyfer newid cyfansoddiadol yng Nghymru yn adlewyrchu gwrthdaro o fewn Plaid Lafur y DU ynghylch graddau priodol datganoli, natur y berthynas rhwng cenedloedd a thiriogaethau cyfansoddiadol y DU, a dymunoldeb diwygio cyfansoddiadol yn ehangach (Hassan 2023; Hayward 2023a). Gan gynnwys o ganlyniad i'r gwrthdaro hwn, erys cwestiynau pwysig am ymrwymiad llywodraeth Lafur yn y dyfodol i gyflawni diwygiadau o'r fath fel yr amlinellir gan Gomisiwn Brown (Elliott 2023).

Mae diffyg ymrwymiad cadarn gan y Blaid Lafur o ran gweithredu argymhellion Comisiwn Brown yn rhwystr arwyddocaol i'r mathau o newid gwleidyddol a chyfansoddiadol y mae ar bobl Cymru eu hangen ac y mae ganddynt hawl i'w disgwyl⁵. Ond mae rhwystr mwy fyth ynghlwm wrth yr argymhellion eu hunain. Yn ôl yr Institute for Government (2022b),

“[the Brown Commission’s] central proposal on devolution to the nations is for a reformed second chamber to have the power to block the UK Parliament from legislating in devolved areas without the consent of the devolved new legislatures...The chamber would be given new powers to reject legislation that relates to “constitutional statutes”. These would be constitutional laws, principles and conventions that are pre-defined. The Supreme Court would have a role in deciding when this power is engaged.”

Felly, dywedir y byddai 'Cynulliad y Cenedloedd a'r Rhanbarthau' diwygiedig yn chwarae rhan allweddol wrth 'atgyfnerthu' datganoli. Fel y mae Sandro (2022; gweler hefyd McHarg 2022) yn ei ystyried, er ei fod yn ymddangos ei fod yn cynnig amddiffyniadau newydd sylweddol i'r setliad datganoli, yn y pen draw, ni fyddai 'atgyfnerthu' fel hyn yn newid *yn ei hanfod* yr egwyddor sylfaenol o oruchafiaeth Seneddol (absoliwt) fel y mae'n berthnasol i statud gyfansoddiadol. Yn wir, mae argymhellion Comisiwn Brown (2022: 140) yn mynd ati'n fwriadus i geisio cynnal yr egwyddor hon, gyda'r awgrym y dylai Tŷ'r Cyffredin gadw pwerau i ddiystyru feto'r Cynulliad. Felly, ac fel y mae Sandro (2022) yn ei ddadlau, mae Comisiwn Brown yn beirniadu'r setliad datganoli presennol fel un sy'n agored i gael ei ddiwygio neu i'w ddiystyru gan y Senedd yn San Steffan', ac eto mae'n darparu mecanwaith diystyru ar gyfer Tŷ'r Cyffredin yng nghynigion y Comisiwn ar gyfer atgyfnerthu datganoli, rhywbeth a fyddai i bob pwrpas dod â ni yn ôl at y sefyllfa bresennol.

⁵ Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r arolygon barn yn dangos y bydd y Blaid Lafur mewn sefyllfa i ffurfio llywodraeth nesaf y DU yn dilyn yr etholiad cyffredinol a ddisgwylir yn 2024, a dyna'r dybiaeth gyffredinol hefyd. Nid yw'r Ceidwadwyr wedi nodi unrhyw awydd i ddiwygio'r cyfansoddiad tiriogaethol yn raddol, ac mae ffigurau Torïaidd blaenllaw wedi galw am rwyfo'n ôl ar ddatganoli (Frost 2022).

Nid ydym, wrth gwrs, yn gwrthwynebu ymestyn pwerau datganoledig pellach i Gymru, nac i ragor o amddiffyniadau cyfansoddiadol ar gyfer datganoli. Mae Plaid Cymru wedi galw'n gyson am ddatganoli pwerau mewn meysydd gan gynnwys cyfiawnder a phlisma, lles, darlledu ac Ystâd y Goron, ymhlith pethau eraill. Gall datganoli pellach fod yn rhan bwysig o unrhyw broses o ddiwygio cyfansoddiadol, ac mae'n bur debyg y bydd. Ond nid ydym yn argyhoeddedig, yn y dadansoddiad terfynol, mai'r opsiwn o atgyfnerthu datganoli yw pen draw taith gyfansoddiadol Cymru. Mewn gwirionedd, nid yw cynigion presennol ar gyfer atgyfnerthu datganoli (hynny yw, y cynigion a amlinellwyd gan Gomisiwn Brown) yn mynd yn ddigon pell o ran diogelu'r setliad datganoli presennol na'i ddiwygio i fynd i'r afael â'r heriau polisi sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd⁶. Mae amheuan a fydd y cynigion hyn yn cael eu cyflawni, gan gynnwys o ganlyniad i wleidyddiaeth fewnol y Blaid Lafur (Shipton 2023). A hyd yn oed os caiff y newidiadau eu cyflwyno, nid oes unrhyw warant yn erbyn rhwyfo yn ôl yn y dyfodol. Yng nghyflwyniad blaenorol Plaid Cymru i'r Comisiwn, amlinellodd y Blaid (2022) pam ei bod hefyd yn credu nad yw ffederaliaeth yn cynnig opsiwn ymarferol ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru, gan gynnwys o ganlyniad i faint anghymesur a goruchafiaeth bosibl Lloegr dros unrhyw strwythurau ffederal⁷.

Yn unol â'n tyb bod sicrhau ac ehangu hunanlywodraeth Gymreig er lles gorau pobl Cymru, ac yn unol â chyfansoddiad Plaid Cymru, rydym yn parhau i hyrwyddo annibyniaeth Cymru fel yr opsiwn gorau a mwyaf dichonol ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn y tymor hir. Gwnawn hynny gan gofio'r angen am berthnasoedd dwfn, agos a pharhaus â chymdogion Cymru ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon, a'r posibilrwydd o archwilio trefniadau cydffederal newydd, fel y nodwyd gan Gomisiwn Annibyniaeth Plaid Cymru (2021) ac yn ei gyflwyniad blaenorol i'r Comisiwn Annibynnol Ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (Plaid Cymru 2022). Er ein bod yn gadarn yn ein cred a) fel y cydnabyddir gan y Comisiwn, nid yw'r *status quo* cyfansoddiadol yn gweithredu er buddiannau Cymru yn faterol, yn gymdeithasol nac yn wleidyddol; b) nad yw atgyfnerthu datganoli na ffederaliaeth yn cynrychioli opsiynau amgen cynaliadwy i'r setliad cyfansoddiadol presennol yn y tymor hir; ac c) gan gynnwys yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a'r dinistr ecolegol, fod angen herio credoau gwleidyddol ac economaidd traddodiadol presennol, rydym hefyd yn cydnabod bod yr opsiwn o annibyniaeth yn codi cwestiynau economaidd gwleidyddol sy'n bwysig, yn gorgyffwrdd ac yn heriol, ac mae'n iawn bod pobl Cymru yn disgwyl atebion i'r cwestiynau hyn. Dyma'r cwestiynau a amlinellwyd gan y Comisiwn:

- A allai Cymru annibynnol gynnal o leiaf y lefel bresennol o wasanaethau cyhoeddus ar sail ei chapasiti cyllidol ei hun?
- Sut byddai Cymru annibynnol yn ariannu'r cyfrifoldebau hynny sy'n cael eu hariannu'n llwyr gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd, gan gynnwys pensiynau a budd-daliadau, ac yn creu'r capasiti i weithredu systemau fel mewnfudo, masnach a chynrychiolaeth dramor?
- Sut byddai Cymru annibynnol yn sefydlu ei hygredded a'i sefydlogrwydd cyllidol, a pha arian cyfred y byddai'n ei ddefnyddio?

⁶ Mae cynigion amgen yn cynnwys cynigion gan y Bennett Institute for Public Policy a'r Institute for Government (2023). Mae'r cynigion hyn yn cynnwys Pwyllgor Seneddol newydd ar y Cyfansoddiad, wedi'i gefnogi gan Swyddfa newydd ar gyfer y Cyfansoddiad, a mesurau i ymwreiddio gweithredoedd cyfansoddiadol, gan gynnwys drwy eu hamddiffyn rhag cael eu diddymu yn annisgwyl.

⁷ Mae McHarg (2022) yn gwneud dadl debyg yn erbyn 'atgyfnerthu' datganoli yn ei beirniadaeth o gynigion Comisiwn Brown ar gyfansoddiad y tiriogaethau.

- Sut byddai'n cynnal hyder y marchnadoedd ariannol yn syth ar ôl ymwahanu, ac yn y tymor canolig/hirach?
- Sut byddai ffin Cymru/Lloegr yn gweithio, a beth fyddai'r goblygiadau i fusnesau a dinasyddion sy'n croesi'r ffin bob dydd i'r naill gyfeiriad a'r llall?
- Beth fyddai goblygiadau'r ffin genedlaethol i fasnach â gweddill y DU, Ewrop a'r byd?
- A fyddai Cymru annibynnol yn dechrau'r broses i ddod yn aelod o'r UE, gan gofio ei bod yn annhebygol y bydd y trefniadau a negodwyd gan y DU cyn gadael yr UE ar gael, a faint o amser fyddai hyn yn ei gymryd?

Mae gwneud y gwaith caled i roi atebion i'r cwestiynau hyn yn rhan allweddol o'n cenhadaeth fel plaid. Yn yr hyn sy'n dilyn, a chan gynnwys drwy dynnu ar ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Grŵp Senedd Plaid Cymru⁸, rydym yn amlinellu ein hymatebion i gwestiynau'r Comisiwn am yr opsiwn o annibyniaeth.

A allai Cymru annibynnol gynnal o leiaf y lefel bresennol o wasanaethau cyhoeddus ar sail ei chapasiti cyllidol ei hun?

Mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Blaid Cymru, daw Doyle (2022) i'r casgliad, yn hytrach na'r £13 biliwn a gafodd ei dybio neu ei fynnu yn gyffredinol, byddai 'bwlch cyllidol' Cymru annibynnol tua £2.6 biliwn – 3% o'r Cynnyrch Domestig Gros presennol ac mae hyn yn saff o fewn y normau Ewropeaidd⁹. Dyma fyddai'r man cychwyn cyllidol ar gyfer gwladwriaeth Gymreig annibynnol. Yn seiliedig ar y llinell sylfaen hon a chan dybio y byddai proses i Gymru ymuno â'r UE yn y pen draw (yn unol â pholisi datganedig Plaid Cymru o annibyniaeth yn Ewrop), mae papur pellach gan Doyle (2023) yn dangos y byddai Cymru annibynnol yn ariannol gynaliadwy yn y tymor canolig. Byddai esblygiad sefyllfa gyllidol Cymru ôl-annibynnol, fel y mae Doyle yn ei ddangos, yn ganlyniad i'r diffyg cyllidol a etifeddwyd ynghyd â'r croniad o gostau a rhwymedigaethau – gan gynnwys pensiynau a thalu dyledion – dros amser; perfformiad economaidd a chyfraddau twf; a lefel gwariant cyhoeddus, polisïau trethiant a'r trethi a gymerir.

O ran costau, gan dybio y byddai a) rhwymedigaethau pensiynau yn trosglwyddo'n raddol i Gymru annibynnol dros 30 mlynedd, yn gymesur â chyfraniadau a wnaed ar ôl dod yn wlad annibynnol¹⁰, a b) byddai angen i Gymru annibynnol fenthycu tua 3% o'r Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer buddsoddi ac i dalu am ymrwymadau gwariant cyhoeddus presennol, mae Doyle yn cyfrifo y

⁸ Mae'r papurau ymchwil hyn – Doyle (2023), Hayward a McEwen (2023) a Laurentjoye (2023) – wedi'u cyflwyno'n flaenorol i'r Comisiwn i'w hystyried, ac maent hefyd wedi'u hatodi i'r papur hwn.

⁹ Mae'r gwaith ymchwil hwn yn tynnu ar waith blaenorol a wnaed gan Doyle (2021) ar gwestiwn 'cymhorthdal' y DU i Ogledd Iwerddon, ac sy'n nodi elfennau hollbwysig o'r cymhorthdal nad oes modd eu trosglwyddo i Iwerddon unedig: pensiynau, ad-daliadau dyledion cenedlaethol y DU, gwariant ar amddiffyn, gwariant arall nas nodwyd, a thanamcangyfrifon o gyfran Gogledd Iwerddon o refeiwn trethi'r DU.

¹⁰ Mae rhywfaint o amheuaeth wedi'i fynegi ynghylch honiad Doyle y byddai rhwymedigaethau pensiynau sydd wedi eu cronni hyd at adeg annibyniaeth yn cael eu cadw gan weddill y DU, ac y byddai hyn, o leiaf, yn amodol ar ganlyniad ffafriol i negodiadau ynghylch annibyniaeth. Mae peth trafodaeth ar hyn isod. Fodd bynnag, mae'r dadleuon hyn yn tynnu ar gysail sefydledig (er enghraifft, dinasyddion Gwyddelig sy'n byw ar hyn o bryd yn Iwerddon sy'n cael pensiwn y wladwriaeth Prydeinig), rheoliadau a chytundebau presennol (Fabbrini 2020), a disgwyliadau rhesymol ynghylch 'hawliau' i bensiwn (Tomlinson 2022). Mae dadl Doyle na fyddai Cymru annibynnol dan rhwymedigaeth i etifeddu unrhyw gyfran o ddyled gyhoeddus y DU yn seiliedig ar y cysail a sefydlwyd yn ystod refferendwm annibyniaeth yr Alban yn 2014.

byddai'r rhain yn dechrau ar tua £250 miliwn y flwyddyn a chynnydd gan tua £250 miliwn y flwyddyn dros y tymor canolig (yn codi i £3.75 biliwn ym mlwyddyn 15). O ran taflwybrau twf, gan dynnu ar brofiad blaenorol gwledydd bach eraill o ymuno â'r Undeb Ewropeaidd – gan gynnwys Iwerddon, Tsiecia, Romania, Latfia a Slofenia – mae Doyle yn modelu tri opsiwn, sef 1%, 2%, a 3% yn uwch na thwf cyfartalog y DU. Ac o ran gwariant cyhoeddus a threthi, mae Doyle yn modelu opsiynau ar gyfer twf yn erbyn tri model gwariant cyhoeddus posibl: y *status quo* (38% o'r Cynnyrch Domestig Gros), model Gwlad Belg (42% o'r Cynnyrch Domestig Gros) a model Denmarc (45% o'r Cynnyrch Domestig Gros). Gyda'i gilydd, mae'r uchod yn creu 9 senario gwahanol ar gyfer llwybr cyllidol Cymru ar ôl annibyniaeth. Ym mhob un ond un o'r senarios hyn, gan dybio na fydd unrhyw newidiadau i wasanaethau cyhoeddus ac er gwaethaf cost pensiynau a thalu dyledion, byddai'n bosibl i Gymru gynnal 'cyllideb gytbwys' cyn blwyddyn 15. Byddai hyn, yn hollbwysig, yn creu mwy o ofod cyllidol i Gymru bennu ei blaenoriaethau o ran gwariant cyhoeddus¹¹. Fel y mae Doyle (Ibid.: 19) yn ei awgrymu,

“If Wales did achieve an average growth of 3%, and in addition decided to move towards a more typically European level of taxation and public expenditure, it would have the economic capacity to end a borrowing requirement much earlier than year 15 and/or to significantly increase public expenditure and investment.”

Gan gynnwys trwy gyfeirio at waith Doyle ynglŷn â'r bwlch cyllidol a chwestiynu'r gwaith hwnnw, mae ymchwilyr eraill hefyd wedi mynd ati i ddangos cynaliadwyedd cyllidol Cymru annibynnol. Mae Melin Drafod (2023: 4), er enghraifft, wedi mynegi rhywfaint o amheuaeth synhwyrol a rhagofalus ynglŷn â honiadau Doyle ynghylch rhwymedigaethau pensiynau yn benodol, ond mae hefyd wedi mynegi mwy o hyder yn ei ddadleuon ynghylch y tanamcangyfrifon presennol o gyfran Cymru o drethi'r DU a'r arbedion posibl yn sgil llai o wariant ar wasanaethau tramor. O'r herwydd, mae Melin Drafod (Ibid.: 10) o'r farn y bydd trafodaethau gyda gweddill y DU yn ein gadael ni, fel sefyllfa waethaf, â diffyg cyllidebol o tua 9-10% o'r Cynnyrch Domestig Gros y flwyddyn, a rhoi sylw i hyn drwy amrywiaeth o fesurau i gydgrynhoi sefyllfa ariannol Cymru - gan gynnwys diwygiadau i drethi; mesurau i gynyddu canran y boblogaeth sydd o oedran gweithio, gan gynnwys drwy ddiwygio trefniadau mewnfudo; gostyngiad mewn gwariant ar amddiffyn i 0.5% o'r Cynnyrch Domestig Gros; a newidiadau gweinyddol. Gan ddefnyddio Doyle fel man cychwyn, mae Melin Drafod (Ibid.: 4) yn dadlau y byddai'r mesurau hyn yn rhoi hwb o tua £5-6 biliwn y flwyddyn i fantolen gwladwriaeth Cymru, gan arwain at warged ariannol o tua £2-3 biliwn y flwyddyn, neu 3-4% o'r Cynnyrch Domestig Gros, a gâi ei fuddsoddi ym mlaenoriaethau polisi cyhoeddus penodol Cymru. Byddai'r blaenoriaethau gwariant hyn, wrth gwrs, yn fater ar gyfer gwneud penderfyniadau democrataidd a dadl gyhoeddus mewn Cymru annibynnol (er gwaetha'r ffaith eu bod yn cyd-fynd, yn fras, â blaenoriaethau polisi Plaid Cymru ei hun). Y pwynt hollbwysig yma yw bod Doyle wedi darparu meincnod newydd ar gyfer deall man cychwyn cyllidol a hyfywedd Cymru annibynnol, a'i chapasiti i gynnal a datblygu ei gwasanaethau cyhoeddus.

Sut byddai Cymru annibynnol yn ariannu'r cyfrifoldebau hynny sy'n cael eu hariannu'n llwyr gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd, gan gynnwys pensiynau a budd-daliadau, ac yn creu'r capasiti i weithredu systemau fel mewnfudo, masnach a chynrychiolaeth dramor?

¹¹ Mae Doyle yn cynnig mai'r meysydd allweddol ar gyfer buddsoddi, gan gynnwys fel ysgogwyr twf, fyddai addysg, sgiliau, ac ymchwil a datblygu.

Mae'r uchod yn manylu – yn seiliedig ar waith Doyle (2022, 2023) ar ragamcanion cyllid cyhoeddus Cymru annibynnol, ac yn adeiladu ar ei (ail)asesiad o fwlch cyllidol Cymru pan ddoi'n wlad annibynnol – y gofod cyllidol y gallai Cymru edrych i'w greu yn y tymor canolig a'i chapsiti i gynnal a thyfu lefelau gwariant cyhoeddus. Gan dynnu ar waith Comisiwn Twf Cynaliadwy yr Alban (2018), mae Doyle hefyd yn dadlau na fyddai'r costau 'sefydlu' ar gyfer gwladwriaeth Gymreig annibynnol yn sylweddol yng nghyd-destun gwariant cyhoeddus ehangach. Er y byddai costau'n gysylltiedig â sefydlu sefydliadau gwladwriaethol newydd, fel Gwasanaeth Tramor, Cyllid a Thollau a system fudd-daliadau, mae rhai o'r costau hyn eisoes yn cael eu cyfrif gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn sgil 'taliadau' y pen a wneir gan Gymru ar gyfer gwasanaethau'r DU gyfan. Mewn geiriau eraill, mae Cymru *eisoes* yn talu ei siâr ar gyfer nifer o'r sefydliadau allweddol y byddai eu hangen arni pe doi'n wlad annibynnol. Ac mae yna, yn ôl Doyle (2023: 1; gweler hefyd Melin Drafod 2023: 11-12) arbedion i'w canfod wrth deilwra gwasanaethau a chreu sefydliadau sy'n agosach at angen y cyhoedd ac yn llai biwrocraidd (drwy, er enghraifft, ail-raddio'r hyn a fyddai'n dod yn wasanaeth diplomyddol Gymreig).

Daeth y Comisiwn Twf Cynaliadwy (2018: B5.17-B5.26) i'r casgliad y byddai cost ychwanegol, drosiannol o £450 miliwn dros bum mlynedd – neu £90 miliwn y flwyddyn – a hynny'n union cyn ac yn syth ar ôl annibyniaeth i'r Alban, yn sgil creu adrannau llywodraeth newydd ac asiantaethau cysylltiedig. Mae Doyle yn awgrymu mai'r swm cyfatebol pro-rata ar gyfer Cymru fyddai £50 miliwn y flwyddyn, gyda'r posibilrwydd y gallai'r costau cymharol fod ychydig yn uwch i Gymru, fel gwladwriaeth lai (ac 'arbedion maint' sy'n cronni ar gyfer gwladwriaethau mwy). Ond byddai'r costau hyn yn cael eu gwrthbwyso mewn dwy ffordd. Yn gyntaf yw'r arbediad y byddai Cymru yn ei wneud mewn meysydd lle mae'n cyfrannu ar hyn o bryd at feysydd o wariant y DU na fyddai eu hangen mwyach. Mae Doyle yn dadlau y gallai'r mathau hyn o 'wariant cyhoeddus nad ydynt yn hysbys' fod yn werth £230 miliwn. Yn ail, rhan helaeth o'r costau a ddyrennir ar hyn o bryd i Gymru ar gyfer gwasanaethau'r DU gyfan (ac eithrio'r lluoedd amddiffyn) yw cyflogau a delir i weision cyhoeddus, ac nid yw'r mwyafrif helaeth ohonynt yn byw nac yn talu trethi yng Nghymru. Fel y mae Doyle yn ei awgrymu (2023: 2):

“[Transfer of workers (and, thereby, salaries) to Welsh, as opposed to UK-wide, public services would] see taxation increase by approximately £350m a year. Therefore, while there would be new and real costs for new institutions, there would also be saving and new revenues. The collective impact of these will be positive and not negative for Welsh public finances, to a scale of approximately £530m p.a., following the Scottish Growth Commission methodology”.

Sut byddai Cymru annibynnol yn sefydlu ei hygredded a'i sefydlogrwydd cyllidol, a pha arian cyfred y byddai'n ei ddefnyddio? Sut byddai'n cynnal hyder y marchnadoedd ariannol yn syth ar ôl ymwahanu, ac yn y tymor canolig/hirach?

Yn ei hanfod, ac yn unol â phapur Llywodraeth yr Alban, *A stronger economy with independence* (2022: 35, gweler hefyd Tetlow a Soter 2021), byddai angen i Gymru annibynnol ddewis rhwng rhannu'r math presennol o arian cyfred neu gyflwyno math newydd. Fel yr amlinellwyd gan Hayward (2022: 92-102, gweler hefyd Donovan 2017), yn ymarferol, gellir rhannu hyn ymhellach yn dri opsiwn realistig: cadw'r Sterling, creu arian cyfred Gymreig annibynnol, neu fabwysiadu'r Ewro. Mae'r ail o'r opsiynau hyn yn angenrheidiol hefyd pe dilynid y trydydd opsiwn (hynny yw, byddai creu arian cyfred Gymreig

annibynnol o reidrwydd yn digwydd i Gymru ymuno ag Ardal yr Ewro)¹², ac felly'r opsiynau credadwy yn syth ar ôl annibyniaeth yw cadw'r bunt neu gyflwyno math o arian cyfred Cymreig. Fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth yr Alban (2022) (yn unol â chynigion gan y Comisiwn Twf Cynaliadwy), mae opsiwn hefyd i bontio'n raddol o'r naill i'r llall, gyda golwg ar feithrin sefydlogrwydd a hygrededd¹³.

Er y byddai'n creu elfen o barhad i aelwydydd a busnesau wrth bontio i ddod yn wlad annibynnol, fel y mae Hayward (2022: 95) yn ei awgrymu, mae cytundeb eang nad yw cadw'r bunt yn debygol o fod yr opsiwn gorau i Gymru annibynnol yn y tymor hir¹⁴. Mae'r prif resymau am hyn yn cynnwys y diffyg rheolaeth y byddai gan Gymru dros gyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid, a'r cyfyngiadau y byddai'n eu gosod ar allu llywodraethau Cymru ar ôl annibyniaeth i ddeddfu newidiadau mewn polisi cyllidol. Yng nghyd-destun yr Alban, mae melin drafod Common Weal wedi disgrifio 'sterlingization' fel cadwyn arian, a fyddai'n atal llywodraeth Alban annibynnol rhag cael rheolaeth lawn dros bolisiau macro-economaidd (Dalzell a Ryan 2018: 4). Caiff hyn oll ei ategu gan Laurentjoye (2023), sydd hefyd yn dangos a) yr angen am fanc canolog annibynnol Cymreig i weithredu fel benthyciwr ac, yn hollbwysig, fel 'gwneuthurwr marchnad' os metha popeth arall a b) bod natur benodol y diffyg 'dwbl' (h.y. cyllidol a masnach) yng Nghymru yn addas ar gyfer cyfundrefn lle bo cyfraddau cyfnewid annibynnol. Yn wir, mae Laurentjoye yn dadlau, i'r perwyl hwn, fod creu math o arian cyfred Cymreig yn greiddiol i sicrhau sefydlogrwydd ariannol Cymru annibynnol. Adleisir y dadleuon hyn gan Dalzell a Ryan (2018: 1, 5-7), sydd hefyd yn cynnig mesurau i amddiffyn math newydd o arian cyfred rhag ymosodiadau hapfasnachol gan ddefnyddio cyfraddau llog a chronfeydd tramor wrth gefn (gweler hefyd Laurentjoye 2023: 56-61).

Fel yr awgrymwyd uchod, mae Laurentjoye yn cynnig, yn gyffredinol, mai creu math newydd o arian cyfred i Gymru a'i gyflwyno'n raddol – fel rhan o gyfnod gweithredu ehangach – yw'r opsiwn gorau o ran arian cyfred ar gyfer Cymru annibynnol. Gall anfanteision yr opsiwn hwn, gan gynnwys costau pontio, a chyfraddau cyfnewid, hygrededd a risgiau cyfalaf gael eu goresgyn, neu eu gwrthbwyso gan y manteision, sy'n cynnwys creu mwy o gapasiti ar gyfer ymreolaeth ar bolisiau economaidd a'r capasiti ar gyfer Banc Canolog Cymreig i hyrwyddo sefydlogrwydd trwy weithredu fel benthyciwr a gwneuthurwr marchnad os metha popeth arall. Byddai'r banc canolog yn cael ei ategu gan dri sefydliad newydd arall: Asiantaeth Goruchwylio Cyllidol i Gymru; Comisiwn Cyllidol Cymru a Chomisiwn Masnach a Chyfrifon Cyfredol Cymru, a fyddai'n cydweithio â'r Banc a chyda'i gilydd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Gan nodi nad yw'r dewis rhwng arian cyfred 'symudol' ac arian cyfred wedi'i 'begio' mor syml ar ffurf dau opsiwn fel ag a awgrymir yn gonfensiynol, cynnig Laurentjoye yw y byddai Cymru yn pegio ei harian i'r bunt, yn y lle cyntaf, ond y gallai'r peg hwn drosglwyddo dros amser i 'fasged' o fathau ehangach o arian cyfred, gan gynnwys yr Ewro.

¹² Mae hyn er gwaetha'r ffaith y gallai Cymru wneud y penderfyniad unochrog i ddefnyddio'r Ewro heb gynrychiolaeth yn unrhyw un o sefydliadau Ardal yr Ewro, megis yn achos Montenegro a Kosovo. Fel y mae Hayward (2022: 96) yn ei awgrymu, nid yw hwn yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn opsiwn argyhoeddedig ar gyfer Cymru annibynnol.

¹³ Yn eu hadroddiad ar gyfer Common Weal, *How to Launch a Scottish Currency: Preparing Scotland for monetary sovereignty from day one of independence* (2018), mae Dalzell a Ryan yn dadlau bod y cyfnod pontio hwn yn digwydd cyn annibyniaeth, fel rhan o gyfnod gweithredu ehangach.

¹⁴ Ond mae Ball (2019) wedi awgrymu ei bod yn bosibl mai dyma'r opsiwn gorau neu'r opsiwn mwyaf dichonol yn y tymor canolog.

Mae'r sefyllfa lle byddai Cymru annibynnol yn ymuno â'r UE yn cael ei thrafod ymhellach isod. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yma ei bod yn debygol y byddai'r broses o ymaelodi yn gofyn am ymrwymiad gan y Gymru annibynnol, *mewn egwyddor*, i ymuno ag Ardal yr Ewro yn y pen draw. Fel y mae Laurentjoye yn ei amlinellu, byddai hyn yn golygu cyflawni ystod o feini prawf ar gyfer ymuno a fyddai'n ymwneud â sefydlogrwydd prisiau, cyllid y llywodraeth, sefydlogrwydd cyfraddau cyfnewid, cyfraddau llog ac aliniad cyfreithiol. Er y gallai Cymru annibynnol ymrwymo, yn ddiwyll, i gyflawni'r meini prawf hyn yn y tymor hir, nid oes unrhyw fecanwaith i *orfodi* hyn. Mae nifer o aelod-wladwriaethau'r UE, er eu bod wedi ymrwymo i alinio a mabwysiadu'r Ewro, yn parhau y tu allan i Ardal yr Ewro ac ymddengys mai felly y bydd am gyfnod amhenodol. Yn ymarferol, ac fel y mae Laurentjoye (2023: 37, 63) yn ei ddweud:

“Wales should prioritize its intrinsic development – encompassing economic, social, industrial, and environmental dimensions – before contemplating membership in the eurozone. By strengthening these foundational elements first, Wales could position itself more robustly for any potential future eurozone integration, 20 to 40 years from now...Launching the Welsh pound is by no means a panacea. However...its advantages, notably the enhanced policy flexibility it offers, set it apart from alternatives like sterlingization or the adoption of the euro. Naturally, like any significant policy shift, introducing a new currency will come with its set of challenges. But facing challenges is part and parcel of policy formulation and implementation.”

Sut byddai ffin Cymru/Lloegr yn gweithio, a beth fyddai'r goblygiadau i fusnesau a dinasyddion sy'n croesi'r ffin bob dydd i'r naill gyfeiriad a'r llall?

Mae rheolaeth ffiniau yn rhywbeth sy'n gynhenid i fod yn wladwriaeth ac yn rhan arferol o wladwriaeth, ac nid oes dim byd rhyfeddol am annibyniaeth i Gymru yn hyn o beth. Yn hollbwysig, fel y mae Hayward a McEwen (2023; gweler hefyd Morphet 2021) yn ei amlygu, mae Cymru eisoes yn rheoli ei ffiniau, gan gynnwys â Lloegr. Fel y datgelwyd yn fwyaf amlwg efallai gan bandemig Covid-19, mae gwahaniaethau ar draws y ffin hon mewn meysydd gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol; trethiant a pholisi economaidd ehangach; trafniadaeth; ac addysg eisoes yn cael ei dderbyn fe ffaith sefydledig gan y bobl sy'n byw ar y ffin a busnesau sy'n masnachu ar draws y ffin. I'r perwyl hwn, byddai'r drefn o ran y ffin mewn Cymru annibynnol yn fater o ddatblygu'r prosesau rheoli ffiniau presennol yn hytrach na rhywbeth cwbl newydd. Ymhellach, ac fel y mae adroddiad Hayward a McEwen (2023: 60) yn ei wneud yn glir:

“[at Wales' international borders] the Welsh Government already assumes responsibility for checks on sanitary and phyto-sanitary (SPS) goods, for example. It also has experience of preparing for even harder borders (in the event of a No Deal Brexit, twice over) and introducing emergency border controls at short notice (in the event of a pandemic). This is experience that should be seized upon, properly recorded and learned from - not only with a view to possible constitutional change but also as good practice in light of the potential for future border-related challenges, such as another pandemic.”

I grynhoi, wrth reoli goblygiadau annibyniaeth i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, a'r busnesau a'r dinasyddion sy'n ei chroesi'n ddyddiol, byddai Cymru annibynnol yn adeiladu ar y sefyllfa bresennol a'r cynsail presennol, ac ar y profiad, gwybodaeth sefydliadol a dulliau newydd o gasglu a chadw data perthnasol yn deillio o Brexit a phandemig Covid-19. Byddai hefyd yn rhesymol tybio bod Cymru

annibynnol yn parhau i fod yn aelod o'r Ardal Deithio Gyffredin, lle gwarantir yr hawl i symud yn rhydd o fewn Prydain Fawr, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, a rhwng y gwledydd hynny, i ddinasyddion Prydeinig ac Gwyddelig (Donovan 2020).

O ystyried popeth a amlinellir uchod, a chan dybio y byddai cytundeb cynhwysfawr wedi'i negodi ynghylch annibyniaeth i Gymru gyda gweddill y DU¹⁵, ni fyddai fawr ddim newid sylweddol, os o gwbl, ym mhrofiad pobl o groesi ffin Cymru/Lloegr ar ddiwrnod cyntaf annibyniaeth. Fel y dywedodd Hayward a McEwen (2023: 60), pe bai cytundeb cynhwysfawr gyda gweddill y DU yn cael ei flaenoriaethu a'i negodi'n llwyddiannus, gan ddod i rym ar ddiwedd unrhyw gyfnod pontio, mewn theori byddai'n bosibl i darfu fawr ddim ar ei ffiniau unwaith y doi hi'n 'ddiwrnod annibyniaeth'. Mae'n bwysig cydnabod y gallai gwneud penderfyniadau ar ôl annibyniaeth, gan gynnwys ynghylch perthynas Cymru annibynnol â'r UE, (yn dibynnu ar natur y berthynas rhwng y DU a'r UE ar y pryd) gynnwys neu gyflwyno rhai cyfaddawdau o ran pa mor 'feddal' ffin rhwng Cymru a Lloegr. Gallai manteision cyfaddawdau o'r fath gynnwys creu, er enghraifft, mwy o hyblygrwydd i Gymru ddilyn polisi mewnfudo mwy rhyddfrydol a blaengar: polisi sy'n cyd-fynd yn well â'i hanghenion a'i blaenoriaethau (Llywodraeth yr Alban 2022: 91-93). Yn ôl Hayward a McEwen (2023: 35):

“[Wales could, for instance,] choose to permit freedom of movement for EU citizens entering, living or working within Wales, prior to the obligation to do so should it ultimately join the EU/EEA. If it did join the EU/EEA, Welsh citizens would enjoy such benefits in the EEA countries too. If Wales were offering freedom of movement to EEA citizens but there was no such freedom for EEA citizens in rUK, there would be border-related considerations for Wales and rUK. This could include the need for non-Irish EEA citizens living in Wales to have advance UK Electronic Travel Authorisation to travel from Wales into rUK, even though they may not be stopped and checked at the Wales-England border.”

Gan gynnwys yn yr enghraifft uchod, fel y trafodwyd gan Hayward a McEwen, mae rhywfaint o gapasiti i dechnoleg hwylyso gwiriadau 'tu hwnt i'r ffin', yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i gael trefn newydd o arolygiadau ar y ffin – a thrwy hynny unrhyw wrthdaro newydd i bobl pan fyddant yn symud ar draws y ffin (gweler hefyd Skoutaris, a ddyfynnir yn Hayward 2022: 134-135).

Beth fyddai goblygiadau'r ffin genedlaethol i fasnach â gweddill y DU, Ewrop a'r byd?

Mae Hayward a McEwen (2023: 4, 9) yn nodi'n glir nad dim ond llinellau sy'n gwahanu gwledydd yw ffiniau...maent, yn ôl eu diffiniad, wedi'u rhannu rhwng y tiriogaethau ar y naill ochr a'r llall: maent yn marcio pwyntiau cysylltu a chyfnewid. Byddai rheolaeth Cymru annibynnol o'i ffiniau, gan gynnwys ar gyfer busnes trawsffiniol, yn rhywbeth i'w negodi, a byddai angen cynnal perthnasoedd cydweithredol a llinellau cyfathrebu agored gyda'i chymdogion yn y cyfnod cyn ac ar ôl annibyniaeth. Byddai hyn yn hanfodol i gyflawni'r pethau y mae Hayward a McEwen (Ibid.: 61; gweler hefyd NIBBWG 2020) yn cyfeirio atynt fel yr amodau allweddol ar gyfer lleihau'r unrhyw darfu ar fasnach dros ffiniau Cymru ar ôl annibyniaeth: sefydlogrwydd, symrlrwydd, cymesuredd, addysg ac ymgynghori. Efallai, fel y mae Hayward a McEwen (gweler hefyd Llywodraeth yr Alban 2022: 68) yn ei amlygu hefyd, fod rhyw fath o rôl i dechnoleg i lyfnhau'r llif masnach ar ôl annibyniaeth, er y byddai hyn hefyd yn dibynnu, yn y pen

¹⁵ Mae Hayward a McEwen (2023: 53, gweler hefyd Hayward 2022) yn honni ei bod yn annhebygol iawn y bydd Cymru'n dod yn annibynnol heb gytundeb o'r fath â gweddill y DU.

draw, ar ba mor ddwfn ac adeiladol yw'r cysylltiadau trawsffiniol. O ystyried y mathau o gyd-ddibyniaeth a'r cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol ac economaidd sy'n bodoli ar draws ffiniau Cymru, rydym o'r farn y byddai cynnal a meithrin perthnasoedd da yn flaenoriaeth hollbwysig i Blaid Cymru, ac yn debygol i unrhyw Lywodraeth Cymru sy'n cynnal trafodaethau ynghylch annibyniaeth gan gynnwys o gwmpas masnach. Rydym yn cydnabod bod y cysylltiadau hyn wedi'u fframio gan y berthynas rhwng y DU a'r UE ar hyn o bryd, ac y byddent yn parhau i gael eu dylanwadu gan y berthynas honnno. Gan gynnwys fel y dangoswyd wrth negodi Fframwaith Windsor ac ailfyndiad y DU i raglen ymchwil Horizon Europe, gall y cysylltiadau hyn wella dros amser ac mae'n debygol y byddant yn gwella dros amser (Foster 2023). Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach isod.

Mae Arolwg Masnach Cymru 2019 (sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae'r data arolwg hyn ar gael) yn dangos bod tua chwarter yr holl werthiannau (cyfanswm o £26 biliwn) a wnaed gan fusnesau yng Nghymru yn mynd i rannau eraill y DU, a 41% o'r hyn a brynwyd gan fusnesau Cymru (cyfanswm o £27 biliwn) yn dod o rannau eraill y DU (Llywodraeth Cymru 2021b). Gyda'i gilydd, roedd hyn yn cyfrif am 31% o gyfanswm masnach Cymru yn 2019¹⁶. Roedd mwyafrif helaeth (79%) y fasnach hon gyda Lloegr, yn hytrach na Gogledd Iwerddon neu'r Alban. Mae maint y fasnach drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr, yn enwedig, yn rheswm allweddol pam y byddai cytundeb cynhwysfawr ar fasnach a chydweithrediad â gweddill y DU yn flaenoriaeth hollbwysig ar gyfer trafodaethau ynglŷn ag annibyniaeth. Gan dybio, yn rhesymol, y doed i gytundeb o'r fath, ni fyddem yn rhagweld fawr ddim amharu ar lifoedd masnach ar draws ffin Cymru/Lloegr ar ddechrau annibyniaeth. Fel y trafodir ymhellach isod, gallai telerau'r gytundeb rhwng Cymru a gweddill y DU hefyd edrych ar gynnwys mesurau i leihau neu liniaru unrhyw amhariad pellach ar fasnach rhwng Cymru a'r UE. I'r graddau y mae'r opsiynau hyn yn parhau i fod yn wrthbwyntiau neu'n ddeuaidd (ac maent, yn gyffredinol, yn debygol o ddod yn llai cyffredin dros amser), byddai rhinweddau cymharol a'r cyfaddawdau yn sgil alinio â gweddill y DU yn y dyfodol dros alinio o'r newydd â'r UE – gan gynnwys ynghylch y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer masnach – yn fater ar gyfer trafodaeth gyhoeddus a gwleidyddol mewn Cymru annibynnol, a ddylai gael ei chynnal mewn modd agored ac yn onest.

Mae masnach gyda'r UE yn cyfrif am gyfran lai ond arwyddocaol o gyfanswm masnach Cymru. Yn 2019, roedd hyn yn 12% (£20.8 biliwn), yn ôl data Arolwg Masnach Cymru (Ibid.). Yn ôl data masnach nwyddau rhyngwladol mwy diweddar Llywodraeth Cymru¹⁷, hyd yn oed ar ôl Brexit, bu cynnydd bach yng ngwerth allforion o Gymru i'r UE a mewforion ohono¹⁸, o gymharu â lefelau cyn-Covid (h.y., 2019). Yn ôl y data hyn, gwerth allforion nwyddau Cymru i'r UE yn 2022 oedd £11.6 biliwn, cynnydd o 0.8% o'i gymharu â 2019. Roedd mewforion o'r UE yn werth £8.1 biliwn, cynnydd o 16.8% o'i gymharu â 2019 (Llywodraeth Cymru 2023a). Roedd gwerthoedd allforio i'r UE yn cyfrif am 56.5% o allforion Cymru, o'i gymharu â 52.1% o allforion y DU. Fel y mae crynodeb masnach nwyddau rhyngwladol Llywodraeth Cymru (gweler hefyd Drakeford 2023) yn ei gwneud yn glir, mae'r cynnydd hwn mewn masnach gyda'r UE wedi'i ysgogi gan fasnach ag Iwerddon, sef ail farchnad allforio fwyaf Cymru

¹⁶ Yn 2019, roedd llawer – 43% – o gyfanswm masnach busnesau Cymru (£74.2 biliwn) o fewn Cymru. Roedd 4% o gyfanswm y fasnach (£7.4 biliwn) gyda gweddill y byd, a 10% (£16.6 biliwn) 'heb ei bennu' (Llywodraeth Cymru 2021b).

¹⁷ Mae'r data hyn yn defnyddio Ystadegau Masnach mewn Nwyddau Rhanbarthol CThEM yn hytrach na'r 'ystadegau mwy arbrofol' a ddefnyddir ym methodoleg Arolwg Masnach Cymru.

¹⁸ Mae hyn er gwaethaf rhai o'r newidiadau mwy sylweddol ar ôl Brexit a Covid i lifoedd masnach sy'n cael eu cuddio gan bennawd y data (gweler Herd 2023).

bellach, sy'n cyfrif am tua 14.4% o gyfanswm yr allforion nwyddau. Fel yr awgrymwyd gan Hayward a McEwen, un o'r manteision a allai ddeillio o benderfyniad Cymru annibynnol yn y dyfodol i ffafrio integreiddio agosach â'r UE yn hytrach nag alinio â gweddill y DU (i'r graddau y byddai'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn pennu bod y penderfyniad hwn yn parhau i fod yn un y byddai angen eu cymryd) fyddai lleihau neu ddileu rhwystrau i fasnachu rhwng Cymru a'r UE. Law yn llaw â pholisïau masnach priodol, gallai hyn fod yn gynhyrchiol o ran hwyluso ailgyfeiriad economi Cymru a'r cyfle i adeiladu ar gysylltiadau masnachu presennol, yn enwedig ag Iwerddon (Llywodraeth yr Alban 2022: 61-71).

Fel y mae Hayward a McEwen (2023: 43-44, 59) hefyd yn ei nodi, mae cynseiliau wedi'u sefydlu yn y cytundeb a wnaed rhwng y DU a'r UE ynghylch Gogledd Iwerddon a *allai* fod yn fanteisiol wrth negodi cytundeb yn y dyfodol rhwng Cymru annibynnol a'r UE a oedd yn amcanu i wneud y mwyaf o gyfleoedd masnachu ag Ewrop tra'n lleihau'r tarfu (ond nid yn dileu'r tarfu yn gyfan gwbl) ar lif masnach Cymru â gweddill y DU:

“The Windsor Framework marks a new high tide level in terms of the flexibility shown by the EU for border controls. Although such flexibility was shown in light of the unique circumstances of Northern Ireland post-Brexit, it is worth considering where such flexibilities were found...It is possible that the unique circumstances of Wales – a small territory sharing an island with a non-EU state with whom it has a highly integrated economy and shared history, as well as a sea border with its closest EU neighbour – could generate a pragmatic response from the European Union during trade or accession negotiations. The Protocol and the Windsor Framework are examples of where the EU has demonstrated a willingness to take a flexible and pragmatic approach to find often technocratic solutions to complex challenges, whilst maintaining its rules-based system.”

Fodd bynnag, mae Hayward a McEwen yn awyddus i bwysleisio nad yw hyn wedi'i warantu.

Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn fwy na dim o adroddiad Hayward a McEwen (Ibid.: 6, 60) am annibyniaeth a ffiniau Cymru yw mor bwysig ydyw i fod wedi paratoi, caniatáu amser a chymryd gofal:

“managing borders is about managing processes, connections, risks and relationships (closer or more distant) rather than straightforward entry/exit...One thing we can be sure of is that Welsh independence, like devolution, would be a process not an event. Much of the disruptive potential arising from the new status of Wales' borders would vary according to the way that the process of independence is realised. A reasonable-length, carefully managed transition period towards independence should allow detailed, collaborative (e.g. between English and Welsh authorities) preparation for what border management would require.”

Wrth gynllunio ar gyfer cyfundrefn ffiniau newydd i Gymru annibynnol, mae Hayward a McEwen yn pwysleisio'r angen i a) ddilyn cyngor arbenigol ac ymgynghori'n eang; b) cyfathrebu'n agored ac yn onest â'r cyhoedd; ac c) cynnwys mesurau i feithrin hyder a chapasiti, gan gynnwys cyfnod pontio hir i drefniadau newydd i'r ffin ar ôl dod yn wlad annibynnol threfniadau a llywodraethu ehangach. Byddai busnesau angen lefel uchel o sicrwydd – a dylai trafodaethau ynghylch annibyniaeth roi blaenoriaeth

i sicrhau sicrwydd o'r fath – ynghyd â digon o amser er mwyn addasu i oblygiadau annibyniaeth i ffiniau Cymru.

A fyddai Cymru annibynnol yn dechrau'r broses i ddod yn aelod o'r UE, gan gofio ei bod yn annhebygol y bydd y trefniadau a negodwyd gan y DU cyn gadael yr UE ar gael, a faint o amser fyddai hyn yn ei gymryd?

Rydym yn glir mai fel gwlad annibynnol o fewn yr UE yw dyfodol Cymru. Sicrhau annibyniaeth i Gymru o fewn Ewrop yw'r nod gyntaf a amlinellir yng nghyfansoddiad Plaid Cymru, ac mae gweld Cymru annibynnol yn ailymuno i fod yn aelod llawn o'r UE yn parhau'n nod hirdymor i ni. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd uchod, ac fel yr adlewyrchir yn adroddiad y Comisiwn Annibyniaeth (2021), mae telerau presennol Cytundeb Masnach a Chydweithredu yr UE a'r DU yn awgrymu bod angen cyfaddawdu rhwng perthnasoedd Cymru annibynnol yn y dyfodol gyda gweddill y DU a'r UE, yn enwedig o ran rheoli ffiniau Cymru ar ôl annibyniaeth. Mae'r cyfaddawdu hyn, o leiaf, yn bethau y gellid eu lleihau, ac mae gweithredoedd diweddar Llywodraeth bresennol y DU ac yn arbennig nodau datganedig yr wrthblaid Lafur bresennol (sy'n cynnwys, er enghraifft, cytundeb SPS ffurfiol) yn awgrymu bod rhwystrau rhwng y DU a'r UE yn debygol o barhau i leihau dros amser (Foster 2023; Hutton 2023). Mae'n bwysig nodi hefyd y gallai cyfnod arfaethedig o ehangu'r UE esgor ar gynseiliau a hyblygrwydd newydd i wledydd sy'n ymaelodi, gan adeiladu ar y cynseiliau a sefydlwyd gan Fframwaith Windsor (O'Carroll 2023a) ac y gellir ystyried gwahanol fathau o aelodaeth o'r UE, neu gallai hynny fod yn bosibl yn y dyfodol (O'Carroll 2023b). Gallai'r rhwystrau presennol i fasnachu rhwng yr UE a'r DU gael eu dileu bron yn gyfan gwbl gan benderfyniad Llywodraeth y DU i negodi ailfyndiad i farchnad sengl yr UE a'r undeb dollau (gweler Plaid Cymru 2023b; Hiraeth 2023; Williams 2023). Mae hyn yn rhywbeth y bydd Plaid Cymru yn parhau i ddadlau o'i blaid, nid yn unig fel rhan o daith Cymru i ddod yn wlad annibynnol, ond hefyd, yn sylfaenol, oherwydd ei fod er budd materol gorau pawb sy'n rhannu'r ynysoedd hyn.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yw'r llinell sylfaen ar gyfer y berthynas fasnachu rhwng y DU a'r UE. Er mwyn darparu sylfaen ar gyfer perthynas Cymru â'r UE yn y dyfodol, a phontio'r hyn y mae Zuleeg (2020: 17) yn ei amlygu (yn achos yr Alban) fel bwch posibl rhwng bod y tu mewn i fframwaith economaidd y DU ac ymrwymo i farchnad sengl ac undeb dollau yr UE, efallai y bydd trafodaethau ynghylch annibyniaeth yn cynnwys ystyried ymestyn darpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i Gymru annibynnol¹⁹. Byddai hyn yn bosibl, mewn egwyddor, o dan Erthygl 217 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, sy'n datgan y gall yr Undeb Ewropeaidd greu cytundebau ag un neu *ragor* o drydydd gwledydd neu sefydliadau rhyngwladol gan sefydlu cymdeithas sy'n cynnwys hawliau a rhwymedigaethau dwyochrog, gweithredoedd cyffredin a gweithdrefnau arbennig.²⁰ Gan dybio y bydd telerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cael eu hymestyn yn llwyddiannus i Gymru ar y sail hon, gallai'r telerau hyn ddod i rym dros dro ar ddiwrnod cyntaf annibyniaeth, tra'n aros am gadarnhad gan Senedd Ewrop²¹. Cyn i

¹⁹ Heb negodi o'r fath, y sefyllfa ddiofyn fyddai Cymru'n dychwelyd i fod yn drydedd wlad y tu allan i delerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac, felly, heb gytundeb masnach â'r UE. Mae'n werth nodi bod Laurentjoye (2023: 33-34) yn dweud y gallai fod rhai manteision i hyn, yn enwedig pe byddai Cymru'n dewis creu ei harian cyfred ei hun. Mae'r manteision hyn yn cynnwys y gallu i ddefnyddio tariffau a rheolaethau cyfalaf i hybu marchnadoedd domestig a diogelu yn erbyn siociau.

²⁰ Pwyslais wedi ei ychwanegu.

²¹ Mae hyn yn adlewyrchu, i raddau, gynnig Zuleeg (2020: 18) y gallai'r Alban geisio "estyn y cyfnod y mae'n parhau yn fframwaith economaidd y DU y tu hwnt i annibyniaeth *de jure*; yn economaidd, gallai fod cytundebau pontio sy'n awgrymu bod annibyniaeth economaidd *de facto* yn dod ar ôl annibyniaeth *de jure*" er mwyn sicrhau

hyn ddigwydd, dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynnu rôl weithredol a chynhwysfawr wrth lywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, a gweithio i sicrhau hynny (gweler Ymchwil y Senedd 2021, 2022). Yn wir, dylid gwneud hyn ar unwaith ac fel mater o frys. Ni ellir cyfiawnhau'r cyfyngiadau presennol sy'n bodoli ar allu Cymru i gymryd rhan mewn strwythurau llywodraethu rhwng yr UE a'r DU sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl Cymru. Yn ehangach, ac fel yr amlinellwyd gan y Comisiwn Annibyniaeth (2021: 126-127), gall Cymru geisio ehangu a dyfnhau ei hymwneud â sefydliadau'r UE ac aelod-wladwriaethau, a dylai ymdrechu i wneud hynny, gan gynnwys drwy adeiladu ar Gyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu Iwerddon-Cymru yn 2021 (Llywodraeth Cymru 2021a).

Yn achos yr Alban, mae Zuleeg (2020: 18) yn awgrymu y gallai llwybr dichonadwy i bontio o annibyniaeth *de facto* i ymaelodi â'r UE fod ar ffurf cytundeb cynhwysfawr ac uchelgeisiol cyn ymuno â'r UE, a fyddai'n dod i rym cyn gynted â phosibl ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer aelodaeth gyswllt o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Adlewyrchir hyn yn awgrym y Comisiwn Annibyniaeth (2021: 145-147) y gallai aelodaeth o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd fod yn bont i aelodaeth o'r UE yn y dyfodol. Yn ogystal â darparu llwybr i rai o fanteision economaidd aelodaeth o'r UE yn ei rhinwedd ei hun, byddai aelodaeth o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd hefyd yn rhoi'r rhyddid i Gymru greu cytundebau masnach ei hun, gan gynnwys gyda gweddill y DU. Yn wahanol i aelodaeth lawn o'r UE, na ellir ond ei negodi *ar ôl* annibyniaeth, yn unol ag Erthygl 49 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd, gellid mewn egwyddor gytuno ar drefniadau trosiannol – gan gynnwys (ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i) ymestyn telerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu i Gymru annibynnol, neu Aelodaeth i Gymru o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd – a gellid trefnu hynny fel rhan o drafodaethau ar annibyniaeth ac yn ystod unrhyw gyfnod gweithredu. Mae'r amserlen ar gyfer trosglwyddo i aelodaeth lawn o'r UE wedi bod yn destun datganiadau sydd o bosibl wedi eu gor-ddweud: mae Hayward (2022: 141-142), er enghraifft, yn gosod amserlen o 25 mlynedd. Mewn cyferbyniad, a chan dynnu ar enghreifftiau blaenorol o ymuno â'r UE, mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd (er na chafodd ei gymeradwyo erioed yn swyddogol) gan Lywodraeth yr Alban (2023b: 6) yn cynnig, y sefyllfa orau a fyddai'n bosibl ar gyfer yr Alban fyddai amserlen 3-4 blynedd, a gallai'r terfyn uchaf fod hyd at 8 mlynedd, yn seiliedig ar sefyllfa lle byddai'r Alban yn ymaelodi â'r UE o statws trydydd gwlad. Mae hyn yn debygol o fod yn debyg yn achos Cymru, gyda pheth awgrym na fyddai dwy flynedd ar ôl annibyniaeth (yn adlewyrchu Sweden, y Ffindir ac Awstria) yn ddisgwyliad afrealistig i Gymru ymaelodi â'r UE (Doyle, cyfathrebu personol, 18 Medi 2023).

Casgliad

Er ein bod yn credu bod yr uchod yn cynnig ymateb cynhwysfawr i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Comisiwn am yr opsiwn cyfansoddiadol o annibyniaeth, nid ydym dan unrhyw gamargraff ei fod yn cynnig y gair olaf ar yr opsiwn hwn. Yn wir, rydym yn ymwybodol, mewn sawl ffordd, fod y cyflwyniad hwn; y gwaith ymchwil y mae'n seiliedig arno; a gwaith ehangach y Comisiwn y gobeithiwn y bydd y cyflwyniad hwn yn cyfrannu'n gynhyrchiol ato, eu hunain yn codi cwestiynau pellach am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Gan hynny, maent yn cynrychioli parhad y sgwrs am annibyniaeth i Gymru, yn hytrach na diwedd y sgwrs honno. Rydym yn rhoi'r dadleuon hyn gerbron yn rhannol i archwilio pa

pontio esmwyth i ddod yn aelod o'r UE. Mae'n awgrymu (Ibid.: 17) y byddai "er budd yr UE i wneud y broses ymaelodi mor rhwydd â phosibl, yn anad dim er mwyn sicrhau bod ymrwymiad yr Alban i'r UE yn cael ei gynnal" ac mae'n rhesymol disgwyl yr un peth yn achos Cymru.

mor gadarn ydynt wrth inni eu cyflwyno i gael beirniadaeth a chwestiynau dyfnach. Mae cael trafodaeth bellach am y cwestiynau hyn a chwestiynau eraill nid yn unig yn anochel, ond yn ddymunol. Rydym yn gwbl glir mai gan bobl Cymru y mae'r hawl i benderfynu ar drywydd cyfansoddiadol Cymru yn y dyfodol. Ac mae ein gweledigaeth ar gyfer y ddadl am annibyniaeth i Gymru, fel y mae Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth, wedi ei amlinellu, wedi'i chrynhoi yn y stori o "fynd i'r Alban yn y cyfnod cyn y refferendwm yno, a gweld y ddogfen – y cynllun, Papur Gwyn yr Alban – ar fwrdd mewn caffi yn Glasgow, yn flêr, gyda choffi wedi ei golli drosto, oherwydd bod pobl wedi bod yn ei *ddarllen*, yn *dysgu* ohono, ac yn ei *gwestiynu*" (Hiraeth 2023).

Rydyn ni'n ymwybodol, hefyd, bod ystod o faterion amodol – yn bethau 'hysbys' ac 'anhysbys' – a fydd yn effeithio ar y ddadl am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru yn gyffredinol, ac annibyniaeth yn arbennig. Mae'r materion hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lwybrau cyfansoddiadol y chenhedloedd eraill ar yr ynysoedd hyn, a'r posibilrwydd o ail-uniad Iwerddon ac annibyniaeth i'r Alban. Mae prosesau o newid cyfansoddiadol ar draws yr ynysoedd hyn yn dylanwadu ar ei gilydd, ac mae yna gapasiti ar gyfer mwy o ddysgu cilyddol a chyfnewid gwybodaeth nag a geir ar hyn o bryd. Mae'r ymchwil annibynnol y mae'r papur hwn yn tynnu arno yn dwyn ynghyd arbenigedd o'r Alban, Iwerddon (y Gogledd a'r De) a'r UE i ddylanwadu ar ddadleuon am gyfansoddiad Cymru. Credwn fod hyn yn dangos mor werthfawr yw gosod dadansoddiadau o ddyfodol cyfansoddiadol Cymru o fewn fframweithiau trawswladol ehangach.

Fel y nodir drwy gydol y papur hwn, mae achos yr Alban yn debyg iawn i Gymru. Er gwaetha'r heriau a'r rhwystrau diweddar y mae Llywodraeth yr SNP yn eu hwynebu wrth geisio annibyniaeth, mae'r gefnogaeth yn parhau'n gyson, yn enwedig ymhlith pleidleiswyr iau (Paterson 2023). Ac fel y mae'r Comisiwn Annibyniaeth (2021: 144) yn ei nodi:

"[a Yes vote in a future Scottish referendum on independence could] unlock the situation so as to allow a comprehensive debate about a new relationship between the independent nations on the island of Britain...options around a confederal approach...may offer improbable scenarios at present, given the Scottish Government's pressure for an independence referendum and the Westminster Government's intransigence in refusing to countenance one. However, as events unfold, with both sides eventually having to concede the benefits of constructive co-existence on our shared island, a confederal approach might become seen as attractive."

Byddai annibyniaeth i'r Alban neu uniad Iwerddon, neu'r ddau, yn esgor ar newidiadau i rai o'r cyfaddawdau gwleidyddol ac economaidd a drafodwyd uchod a byddent yn agor, er enghraifft, llwybrau i archwilio'r posibilrwydd o 'Gyddfederasiwn Celtaidd' o fewn yr UE (Osmond 2022). Yn y tymor byrrach (ac efallai'n fwy realistig fel ag y mae pethau), mae'n bosibl y bydd dadleuon am ddatganoli pellach yn Lloegr (gweler, e.e., Newman a Kenny 2023) eto'n cael effaith ar y ffordd yr ydym yn meddwl am y cyfansoddiad ar ben arall yr M4, gyda sgil-ffeithiau ar gyfer yr hyn sydd yn gyfansoddiadol bosibl, neu a all ddod yn gyfansoddiadol bosibl, o ran perthynas Lloegr â chenhedloedd eraill yr ynysoedd hyn.

Y neges sy'n dod i'r amlwg fwyaf cryf a chyson o'r hyn yr ydym wedi'i nodi uchod yw mor bwysig yw cynllunio, cymryd amser dros brosesau newid cyfansoddiadol, a'u trin â'r gofal y maent yn

ei haeddu (O'Leary 2022). Gyda hyn mewn cof, mae'r dull yr ydym yn ei argymhell i'r gwrthwyneb y llwr i'r hyn a welwyd gyda phroses Brexit, a gafodd ei symboleiddio'n ddigon addas gan y ddelwedd o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ar y pryd, David Davis, yn dod i Frwsel ar y diwrnod cyntaf o'r negodiadau ynghylch ymadawiad y DU gyda'i gymheiriaid yn yr UE heb unrhyw nodiadau a dim papurau. O'r adeg pan alwodd Cameron y refferendwm, a hynny am resymau gwleidyddol fuddiol, hyd at yr adeg pan ymadawodd y DU â'r UE yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus, bwriwyd ymlaen â Brexit heb unrhyw ddiwedd glo clir, dim cynllunio wrth gefn, tanbriso'r cyfaddawdau y byddai'n rhaid eu gwneud ac agwedd ddi-hid tuag at y gwirionedd. Wrth sicrhau annibyniaeth i Gymru, gallwn a dylem ddysgu o'r camgymeriadau hyn. I'r perwyl hwn, ni all gwaith y Comisiwn fod yn ddiwedd glo ar gyfer gwaith ymchwil a darnau eraill o waith cysylltiedig yn ymwneud â dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Yma, rydym yn ailadrodd galwad a wnaed gan y Comisiwn Annibyniaeth (2021) am greu Comisiwn Cenedlaethol sefydlog (neu debyg) i wneud gwaith parhaus ar yr opsiynau a'r materion gwleidyddol ac economaidd sy'n berthnasol i ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Gallai mesurau pellach i gefnogi gwaith hollbwysig yn y maes hwn gynnwys cyllid penodedig ar gyfer sefydliadau ymchwil, ac, yng nghyd-destun y broses ehangach a pharhaus o ddiwygio'r Senedd, adolygiad o'r modd y caiff pleidiau gwleidyddol eu cefnogi i gynnal a chyfathrebu ymchwil.

Mae'r Comisiwn eisoes wedi penderfynu nad yw unrhyw rwyfo'n ôl (Frost 2022) o'r setliad datganoli presennol yn opsiwn dichonadwy ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Rydym yn cytuno'n bendant. Rydym hefyd wedi amlinellu bod y sylfeini eisoes yn bodoli i greu 'opsiwn ymarferol lleiaf' ar gyfer datblygu'r setliad hwn yn y dyfodol: sylfaen newydd ar gyfer adeiladu dyfodol cyfansoddiadol Cymru. Mae hyn yn cynnwys datganoli cyfiawnder a phlisma, Ystâd y Goron, a phwerau dros ddŵr, lles a darlledu, yn ogystal â thalu i Gymru symiau canlyniadol sy'n ddyledus yn sgil HS2 a chyfraniad Cymru o fewn y strwythurau sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Byddwn yn parhau i fynnu ehangu cwmpas ac uchelgais ein setliad datganoli, a defnyddio ystod gynyddol o bwerau datganoledig i'r eithaf, er mwyn sicrhau bod datganoli yn esgor ar y buddion mwyaf posibl i bobl Cymru. Rydym yn falch bod ein plaid bob amser wedi arwain y ffordd ar y prosesau sydd eu hangen i adeiladu gwladwriaeth a chenedl yng Nghymru, ac wrth inni barhau â'n taith tuag at annibyniaeth, byddwn yn parhau i wneud hynny.

Cyfeiriadau

Anderson, P. a J. Schnabel (2023), "The UK's intergovernmental relations remain a work in progress", *LSE Politics and Policy*, 14 Mawrth, <https://blogs.lse.ac.uk/politicsandpolicy/the-uks-intergovernmental-relations-remain-a-work-in-progress/>

Ball, J. (2019), "What currency could an independent Wales adopt?", *BusinessLive*, 31 Gorffennaf, <https://www.business-live.co.uk/opinion-analysis/what-currency-could-independent-wales-16675230>

Bennett Institute for Public Policy and Institute for Government (2023), *Review of the UK Constitution Final Report*, <https://www.bennettinstitute.cam.ac.uk/wp-content/uploads/2023/09/Review-of-UK-Constitution-final-report.pdf>

Sefydliad Bevan (2023), *A snapshot of poverty in Summer 2023*, <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/08/Snapshot-of-poverty-in-summer-2023.pdf>

Boscia, S. (2023), "The spectre of Liz Truss still haunts Britain", *Politico*, 5 Medi, <https://www.politico.eu/article/united-kingdom-one-year-on-prime-minister-liz-truss-haunts-britain/>

Carmichael, P., D. Birrell a D. Heenan (2023), *Devolution in the UK: Politics, Power and Policies*, Llundain: Bloomsbury

Comisiwn ar Ddyfodol y DU (2022), *A New Britain: Renewing Our Democracy and Rebuilding Our Economy*, <https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Commission-on-the-UKs-Future.pdf>

Dalzell, C. a P. Ryan (2018), *How to Launch a Scottish Currency: Preparing Scotland for monetary sovereignty from day one of independence*, Common Weal, <https://commonweal.scot/wp-content/uploads/2018/08/Scotlands-Monetary-Future.pdf>

Deans, D. (2023a), "Starmer promises Welsh Labour control over replacement for EU aid", *BBC News*, 11 Mawrth, <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-64917965>

_____ (2023b), "Welsh public services must make cuts, Mark Drakeford says", *BBC News*, 9 Awst, <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-66438471>

Donovan, O. (2017), "Currency VIII: What's the best option for Wales?", *State of Wales*, 31 Gorffennaf, <https://stateofwales.com/2017/07/currency-viii-whats-the-best-option-for-wales/>

_____ (2020), "After the UK: What could remain the same after independence?", *State of Wales*, 19 Hydref, <https://stateofwales.com/2020/10/after-the-uk-what-could-remain-the-same-after-independence/>

Doyle, J. (2021), "Why the 'Subvention' does not Matter: Northern Ireland and the All-Ireland Economy", *Irish Studies in International Affairs*, 32 (2), tt. 314-334

_____ (2022), *The "Fiscal Deficit" in Wales: why it does not represent an accurate picture of the opening public finances of an Independent Wales*, Adroddiad a gomisiynwyd gan Blaid Cymru

_____ (2023), *The Projected Public Finances of an Independent Wales*, Adroddiad a gomisiynwyd gan Grŵp Senedd Plaid Cymru

Drakeford, M. (2023), Llythyr at Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 24 Mai, <https://business.senedd.wales/documents/s137407/Letter%20from%20the%20First%20Minister%20Welsh%20Government%20international%20relations%20-%202024%20May%202023.pdf>

Elliott, F. (2023), "Labour plans to abolish House of Lords would take back seat 'as we fix the country', says Thangam Debbonaire", *i*, 25 Mehefin, <https://inews.co.uk/news/politics/labour-abolish-lords-fix-country-thangam-debbonaire-2434887>

Fabbrini, F. gol. (2020), *The Law and Politics of Brexit: Volume II: The Withdrawal Agreement*, Rhydychen: Oxford University Press

Foster, P. (2023), *What Went Wrong With Brexit: And What We Can Do About It*, Caeredin: Canongate Books

Frost, D. (2022), "The SNP has to be defeated, not appeased", *The Telegraph*, 19 Awst, <https://www.telegraph.co.uk/news/2022/08/19/snp-has-defeated-not-appeased/>

Hassan, G. (2023), "Labour need to tell a new story about Scotland", *The National*, 18 Mehefin, <https://www.thenational.scot/politics/23596149.labour-need-tell-new-story-scotland/>

Hayward, K. a N. McEwen (2023), *Wales and its Borders: The implications of independence for managing Wales' land and sea borders*, Adroddiad a gomisiynwyd gan Grŵp Senedd Plaid Cymru

Hayward, W. (2022), *Independent Nation: Should Wales Leave the UK?*, Llundain: Biteback Publishing

_____ (2023a), "Mark Drakeford 'told off' by UK Labour for saying UK is a 'union of 4 territories'", *WalesOnline*, 20 Mehefin, <https://www.walesonline.co.uk/news/politics/mark-drakeford-told-off-uk-27152194>

_____ (2023b), "New poll shows surge in support for Welsh independence", *WalesOnline*, 19 Awst, <https://www.walesonline.co.uk/news/politics/new-poll-shows-surge-support-27548216>

Herd, G. (2023), "What does Wales export globally – and who is buying?", *BBC News*, 23 Mawrth, <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-64970176>

Hiraeth (2023), *Leading Plaid Cymru with Rhun ap Iorwerth*, 14 Gorffennaf, https://www.youtube.com/watch?v=hCWsjOF_f2g

Hutton, W. (2023), "In forcing a U-turn on Horizon, scientists are showing that the flaws of Brexit can be overcome", *The Observer*, 10 Medi, <https://www.theguardian.com/commentisfree/2023/sep/10/forcing-uturn-on-horizon-scientists-showing-flaws-of-brexit-can-be-overcome>

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022), *Adroddiad Interim gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru*, <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim-rhagfyr-2022.pdf>

Ifan, G. a C. Siôn (2022), *Wales' Fiscal Future*, Cyflwyniad a roddwyd yng Nghynhadledd Plaid Cymru, Llandudno, 22 Hydref,

https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0011/2681543/plaid_conference_october2022_FI_N.pdf

_____ a E. G. Poole (2019), *Government Expenditure and Revenue Wales 2019*, Dadansoddi Cyllid Cymru, https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0004/1540498/Government-Expenditure-and-Revenue-Wales-2019.pdf

_____ (2020), *Wales' Fiscal Future: A path to sustainability*, Dadansoddi Cyllid Cymru, [https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0004/1767424/Wales Fiscal Future FINAL.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0004/1767424/Wales_Fiscal_Future_FINAL.pdf)

Y Comisiwn Annibyniaeth (2021), *Cyrchu Annibyniaeth Cymru: Adroddiad Comisiwn Annibyniaeth Cymru*, Talybont: Y Lolfa

Institute for Government (2022a), "Five things we've learned about the Brown Commission on the UK's future", 5 Rhagfyr, <https://www.instituteforgovernment.org.uk/comment/brown-commission-constitutional-reform>

Institute for Government (2022b), "Labour's constitutional proposals: Report on Commission of the UK's future", 6 Rhagfyr, <https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainer/labours-constitutional-proposals>

Jeffrey, C. (2009), "Devolution in the United Kingdom: problems of a piecemeal approach to constitutional change", *Publius: The Journal of Federalism*, 39 (2), tt. 289-313

Jones, R. a R. Wyn Jones (2022), *The Welsh Criminal Justice System: On the Jagged Edge*, Caerdydd: University of Wales Press

Keating, M. (2021), *State and Nation in the United Kingdom: The Fractured Nation*, Rhydychen: Oxford University Press

Laurentjoye, T. (2023), *Currency options for an independent Wales*, Adroddiad a gomisiynwyd gan Grŵp Senedd Plaid Cymru

McClements, F. (2023), "Scottish government objects to controversial Troubles legacy bill", *Irish Times*, 30 Mehefin, <https://www.irishtimes.com/politics/2023/06/30/scotland-to-opt-out-of-uks-controversial-troubles-legislation-unless-concerns-addressed/>

McHarg, A. (2022), "The Future of the Territorial Constitution under Labour? The Report of the Commission on the UK's Future", *UK Constitutional Law Association*, 8 Rhagfyr, <https://ukconstitutionallaw.org/2022/12/08/aileen-mcharg-the-future-of-the-territorial-constitution-under-labour-the-report-of-the-commission-on-the-uks-future/>

Morphet, J. (2021), *The Impact of Covid-19 on Devolution: Recentralising the British State beyond Brexit?*, Bryste: Bristol University Press

Meadway, J. (2023), "The Bank of England is wrong again: workers aren't to blame for inflation", *The Guardian*, 26 Ebrill, <https://www.theguardian.com/commentisfree/2023/apr/26/bank-of-england-huw-pill-inflation-wages-prices>

Melin Drafod (2023), *Achieving an Independent Wales: Finance – Discussion Paper*, <https://melindrafod.cymru/wp-content/uploads/2023/01/ACHIEVING-AN-INDEPENDENT-WALES---FINANCE---DISCUSSION-PAPER.pdf>

Morgan Jones, I. (2022), “Gordon Brown’s report on the future of the UK doesn’t have much to say about Wales”, *Nation.Cymru*, 5 Rhagfyr, <https://nation.cymru/opinion/gordon-browns-report-on-the-future-of-the-uk-doesnt-have-much-to-say-about-wales/>

Newman, J. a M. Kenny (2023), *Devolving English government*, Bennett Institute for Public Policy and Institute for Government, <https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/2023-04/devolving-english-government.pdf>

NI Business Brexit Working Group (NIBBWG) (2020) *Implementing the Northern Ireland Protocol: What Business in Northern Ireland needs & why*, 29 Mai, <https://brc.org.uk/media/674951/implementing-the-protocol-what-business-in-ni-needs-why-nibbg-030620.pdf>

O’Carroll, L. (2023a), “EU needs to prepare for enlargement now, says European Commission Chief”, *The Guardian*, 13 Medi, <https://www.theguardian.com/world/2023/sep/13/eu-needs-to-prepare-for-enlargement-now-says-european-commission-chief-ursula-von-der-leyen-ukraine>

_____ (2023b), “UK could become ‘EU lite’ member of bloc, suggests Franco-German report”, *The Guardian*, 19 Medi, <https://www.theguardian.com/world/2023/sep/19/uk-could-become-an-eu-lite-member-of-bloc-suggests-franco-german-report>

O’Leary, B. (2022), *Making Sense of a United Ireland: Should it Happen? How Might it Happen?*, Llundain: Penguin

Osmond, J. (2022), “Celtic Confederationism”, Presentation given at *After Brexit: Debating Constitutional Futures across ‘these islands’*, 18 Chwefror, https://www.youtube.com/watch?v=N9HVVH3t_1L4

Paterson, L. (2023), “Will support for Scottish independence go away?”, *UK in a Changing Europe*, 11 Medi, <https://ukandeu.ac.uk/will-support-for-scottish-independence-go-away/>

Plaid Cymru (2022), *Y Ffordd i Annibyniaeth: Tystiolaeth Plaid Cymru i’r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru*, Talybont: Y Lolfa

_____ (2023a), “Senedd consensus reached on Plaid call for fair share of HS2 funding for Wales – now Sunak and Starmer must act”, 28 Ebrill, https://www.partyof.wales/hs2_cytuno

_____ (2023b), “Ail-ymuno â’r farchnad sengl i ddadwneud difrod Brexit’ – Arweinydd Plaid Cymru Rhun ap Iorwerth”, 23 Mehefin, https://www.plaid.cymru/5_point_plan_brexit_7.

Redfield & Wilton (2023), *Welsh Westminster, Senedd & Independence Referendum Voting Intention (13-14 August 2023)*, 16 Awst, <https://redfieldandwiltonstrategies.com/welsh-westminster-senedd-independence-referendum-voting-intention-13-14-august-2023/>

Richards, D. a P. Diamond (2023), “Labour’s Commission on the UK’s future: towards a ‘new politics’?”, *Mile End Institute*, 24 Ionawr, <https://www.qmul.ac.uk/mei/news-and-opinion/items/labours-commission-on-the-uks-future-towards-a-new-politics-.html>

Sandford, M. a C. Gormley-Heenan (2020), “‘Taking back control’, the UK’s Constitutional Narrative and Schrodinger’s Devolution”, *Parliamentary Affairs*, 73 (1), tt. 108-126

Sandro, P. (2022), “*Vorrei ma non posso?* The Brown Commission’s report and the conundrum of constitutional entrenchment in the UK”, *UK Constitutional Law Association*, 19 Rhagfyr, <https://ukconstitutionallaw.org/2022/12/19/vorrei-ma-non-posso-the-brown-commissions-report-and-the-conundrum-of-constitutional-entrenchment-in-the-uk/>

Saville Roberts, L. (2023), “Why we need a ‘Senedd brake’ to protect Welsh devolution”, *Nation.Cymru*, 12 Ebrill, <https://nation.cymru/opinion/why-we-need-a-senedd-brake-to-protect-welsh-devolution/>

Llywodraeth yr Alban (2022), *Building a New Scotland: A stronger economy with independence*, 17 Hydref, <https://www.gov.scot/publications/building-new-scotland-stronger-economy-independence/>

_____ (2023a), *Devolution since the Brexit referendum*, 14 Mehefin, <https://www.gov.scot/publications/devolution-since-the-brexit-referendum/>

_____ (2023b), *Timeframe required for an independent Scotland to re-join the EU: FOI Appeal*, 10 Awst, <https://www.gov.scot/publications/timeframe-required-for-an-independent-scotland-to-re-join-the-eu-foi-appeal/>

Ymchwil y Senedd (2021), *Sedd wrth y bwrdd: cynrychioli Cymru yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE*, 2 Rhagfyr, <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/sedd-wrth-y-bwrdd-cynrychioli-cymru-yn-y-berthynas-newydd-rhwng-y-du-a-r-ue/>

_____ (2022), *Yr ystafell lle mae popeth yn digwydd: Cymru yn y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE*, 10 Mai, <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/yr-ystafell-ll-mae-popeth-yn-digwydd-cymru-yn-y-cysylltiadau-rhwng-y-du-a-r-ue/>

_____ (2023), *Neges mewn potel: Sut allai'r ymateb i gynllun dychwelyd ernes yr Alban effeithio ar gynlluniau yng Nghymru?*, 19 Mehefin, <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/neges-mewn-potel-sut-allai-r-ymateb-i-gynllun-dychwelyd-ernes-yr-alban-effeithio-ar-gynlluniau-yng-nghymru/>

Shipton, M. (2023), “Is Welsh Labour on course to scale back its devolution ambitions?”, *Nation.Cymru*, 23 Gorffennaf, <https://nation.cymru/news/is-welsh-labour-on-course-to-scale-back-its-devolution-ambitions/>

Y Comisiwn Twf Cynaiadwy (2018), *Report of the Sustainable Growth Commission*, <https://static1.squarespace.com/static/5afc0bbb79392ced8b73dbf/t/5b0a988c352f53c0a5132a23/1527421195436/SGC+Full+Report.pdf>

Tetlow, G. a T. Soter (2021), *Currency options for an independent Scotland*, Institute of Government, <https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/currency-independent-scotland.pdf>

Tierney, S. (2023), “The Gender Recognition Reform Bill: another dispute over devolved competence”, *UK in a Changing Europe*, 28 Mawrth, <https://ukandeu.ac.uk/the-gender-recognition-reform-bill-another-dispute-over-devolved-competence/>

Tomlinson, M. (2022), "Social Security in a Unified Ireland", *Irish Studies in International Affairs*, 33 (2), tt. 228-246

_____ (2021a), *Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025*, 1 Mawrth, <https://www.llyw.cymru/iwerddon-cymru-cyd-ddatganiad-a-chynllun-gweithredu-ar-y-cyd-2021-i-2025-html>

_____ (2021b), *Arolwg Masnach Cymru: 2019*, 31 Awst, <https://www.llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru-2019>

_____ (2023a), *Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: 2022*, 5 Ebrill, <https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2022-html>

_____ (2023b), *Datganiad Llafar: Ffyniant Cyffredin a Ffyniant Bro*, 25 Ebrill, <https://record.senedd.wales/Plenary/13314#A79075>

Williams, H. (2023), "The case for rejoining Europe's economic frameworks is a no-brainer", *Nation.Cymru*, 19 Medi, <https://nation.cymru/opinion/the-case-for-rejoining-europes-economic-frameworks-is-a-no-brainer/>

Wincott, D., G. Davies a A. Wager (2021), "Crisis, what crisis? Conceptualising crisis, UK pluri-constitutionalism and Brexit politics", *Regional Studies*, 55 (9), tt. 1528-1537

Wyn Jones, R. ac A. Henderson (2023), *The Ambivalent Union: Findings from The State of the Union Survey*, Institute for Public Policy Research, <https://www.ippr.org/files/2023-09/the-ambivalent-union-sept23.pdf>

YesCymru (2023) "Mae 38% o bobl eisiau i Gymru ddod yn genedl annibynnol!", 8 Medi, https://cy.yes.cymru/38_yes

Zuleeg, F. (2020), "Transition from the UK and to the EU" yn K. Hughes gol., *An Independent Scotland and the EU: Issues for Accession*, Canolfan yr Alban ar Gysylltiadau Ewropeaidd, tt. 17-19, <https://www.centreonconstitutionalchange.ac.uk/sites/default/files/2020-03/An%20Independent%20Scotland%20in%20the%20EU.pdf>